# Cynllun Addysg Sengl

## GWEITHIO GYDA'N GILYDD DROS BLANT, POBL IFANC A CHYMUNEDAU AR DRAWS Y FRO

## 2006 - 2008

## CYNNWYS


1. **CYD-DESTUN**
2. **GWELEDIGAETH**
3. **FFRAMWAITH CYFLE CYFARTAL**
4. **BLAENORIAETH 1 – DYSGU A CHYFLAWNIAD**
5. **BLAENORIAETH 2 – CODI SAFONAU**
6. **CYNORTHWYO STRATEGAETHAU – BLAENORIAETHAU 1 A 2**
7. **BLAENORIAETH 3 – CYNLLUNIO LLEOEDD A GWELLA ADEILADAU YSGOL**
8. **ATODIADAU:**

   1a Crynodeb o Dargedau Cyrhaeddiad AALl i'w Mabwysiadu mewn Cynlluniau Addysg Sengl 31 Gorffennaf 2006
   1b Crynodeb o Dargedau Cyrhaeddiad diwygiedig yr AALl i'w cyhoeddi fel ychwanegiad i Gynllun Addysg Sengl yr Awdurdod erbyn 31 Gorffennaf 2007
   2 Ffurflen Arolwg Sampl er mwyn Asesu'r Galw am Ddarpariaeth Cyfrwng Cymraeg
   3a Nifer y Disgyblion: Ysgolion Cynradd ac Ysgolion Meithrin a Gynhelir: y Sefyllfa ym mis Ionawr 2005
   3b Nifer y Disgyblion: Ysgolion Uwchradd: y Sefyllfa ym mis Ionawr 2005
   3c Amcanestyniadau o Nifer y Disgyblion – 2007-2011
   4 Blynyddoedd Cynnar – Lleoliadau Nas Cynhelir a Ariannir: Darparwyr cofrestredig cymeradwyedig gyda'r Partneriaethau Gofal Plant Datblygiad Blynyddoedd Cynnar
   5a Darpariaethau i Ddisgyblion sydd ag Anghenion Addysgol Arbennig: Darpariaeth Gynradd mewn Lleoliadau a Gynhelir
   5b Darpariaethau i Ddisgyblion sydd ag Anghenion Addysgol Arbennig: Darpariaeth Uwchradd mewn Lleoliadau a Gynhelir
   5c Darpariaethau i Ddisgyblion sydd ag Anghenion Addysgol Arbennig: Darpariaeth mewn Ysgolion Annibynnol a Thu Allan i'r Sir

9. **GEIRFA**

**Cyd-destun**

Mae llunio Cynllun Addysg Sengl Cyngor Bro Morgannwg yn ddigwyddiad arwyddocaol. Mae'r cynllun yn sicrhau mwy o integreiddio rhwng blaenoriaethau Gwella Ysgolion, Trefniadaeth Ysgolion a Chynhwysiad ac Addysg Gydol Oes na fu modd ei sicrhau yn y gorffennol. Yn ogystal, mae'r ddogfen yn cynrychioli cam tuag at gyflawni Cynllun Plant yn 2008.

O ganlyniad i ehangder y ddogfen, gwnaethpwyd penderfyniad i lunio trosolwg ar lefel uchel o'r ddarpariaeth Addysg ym mro Morgannwg. Mae'r cynllun yn gyswllt rhwng Cynllun Corfforaethol y Cyngor a chynlluniau gwasanaeth manylach. Mae'n delio â blaenoriaethau a chamau gweithredu, ond nid yw'n cynnwys y materion gweithrediadol, y cerrig milltir a'r elfennau rheoli adnoddau sy'n cael eu cynnwys mewn cynlluniau gwasanaeth atodol. Y diben yw bod y cynllun yn esbonio'r elfennau hynny o'r ddarpariaeth a fydd yn gwireddu ein dyheadau a'n gweledigaeth ar gyfer Addysg ym Mro Morgannwg i ddisgyblion, athrawon, teuluoedd a chymunedau.

**Gweledigaeth**

Mae Addysg a Dysgu Gydol Oes wrth wraidd datblygiad cymunedau ac unigolion. Ceir cyswllt uniongyrchol rhwng ansawdd bywyd, cyfleoedd cyflogaeth, diogelwch, datblygiad, annibyniaeth economaidd a lles, ac Addysg a Dysgu Gydol Oes. Os yw cymunedau ac unigolion yn mynd i ffynnu, nid rhywbeth “dewisol” yw buddsoddi mewn Plant, Pobl Ifanc ac Oedolion sy'n datblygu sgiliau, hunanhyder a photensial.

Ym Mro Morgannwg, ceir hanes balch o lwyddiant a chyflawniad addysgol. Mae ysgolion yn perfformio yn dda, mae disgyblion yn cyflawni, mae gennym safonau addysgu a dysgu da a gweithlu proffesiynol ymroddedig.

Mae'r materion a adlewyrchir yn y cynllun hwn yn adlewyrchu ein hangen i gynnal perfformiad uchel gan baratoi disgyblion, ysgolion a chymunedau ar gyfer sialensiau'r dyfodol.

Seiliwyd ein gweledigaeth ar gyfer Addysg a Dysgu Gydol Oes ym Mro Morgannwg ar:-

1. Ddatblygiad Ysgolion Bro a fydd yn golygu mwy o gydweithio rhwng ysgolion, yn eu cymunedau, a pherthnasoedd gyda'r Cyngor ac asiantaethau eraill a fydd yn cael eu diffinio o'r newydd.

2. Disgwyliad y bydd y model Ysgolion Bro yn galluogi Cyngor Bro Morgannwg i gynnal a datblygu cyflawniadau addysgol, bydd hefyd yn sicrhau bod y Cyngor yn gallu cyflawni ei ymrwymiadau dan y Ddeddf Plant yn well yn lleol.

3. Bydd yr ymrwymiad a wnaethpwyd gan y Cyngor tuag at ei Strategaeth Buddsoddi mewn Ysgolion yn gwella ansawdd cyfleusterau addysg. Bydd y gwelliannau hyn yn cael eu hyrwyddo ar sail disgwyliad eglur y byddant yn darparu cyfleoedd i'r gymuned wneud mwy o ddefnydd o gyfleusterau ysgolion a chynorthwyo cynllunio effeithiol ar gyfer darparu lleoedd mewn ysgolion yn y dyfodol.

4. Dealltwriaeth y bydd y Cyngor a'r Gwasanaethau Addysg yn parhau i wynebu sialensiau ariannol anodd ac y bydd angen ymateb i dargedau Llywodraeth Cynulliad Cymru ynghylch effeithlonrwydd ac arbedion. Disgwylir y bydd mwy o gydweithio gydag ysgolion a rhwng ysgolion yn cyfrannu tuag at gyflawni'r amcan hwn.

5. Darparu agenda addysg sy'n ymestyn cyfleoedd addysg dan oed ysgol trwy gyfrwng y cyfnod sylfaen, sy'n gwella ansawdd y pontio rhwng addysg Gynradd ac Uwchradd ac a fydd yn gwella'r dewis a'r cyfleoedd yn y cwricwlwm gan fynnu partneriaethau effeithiol gydag ysgolion ac asiantaethau eraill. Yn ystod cyfnod y Cynllun Addysg Sengl, bydd buddsoddiad ac ymrwymiad pellach yn cael ei wneud tuag at weithio mewn partneriaeth er mwyn cyflawni'r blaenoriaethau hyn.

6. Yn ogystal, bydd y Cyngor yn parhau i ddatblygu a rheoli'r ddarpariaeth i ddysgwyr sydd ag anghenion arbennig neu anghenion ychwanegol. Er eu bod yn defnyddio cryn dipyn o adnoddau, mae'r mentrau hyn yn hanfodol i alluogi unigolion i wireddu eu potensial gan helpu i ostwng lefelau dibyniaeth yn y dyfodol.

7. Mae'r Gyfarwyddiaeth Dysgu a Datblygu wedi pennu trefniadau i integreiddio darpariaeth Addysg i Oedolion a Gwasanaethau Ieuenctid o fewn gwasanaeth Dysgu Gydol Oes. Bydd gan y gwasanaethau hyn rôl pwysig wrth gyflawni ein dyheadau o ran ysgolion bro.

Er bod y Cynllun Addysg Sengl yn ddogfen dros dro sy'n arwain at ofyniad Cynllun Plant 2008 Llywodraeth Cynulliad Cymru, bydd cyflwyno'r mentrau uchod dros y 2 flynedd nesaf yn darparu'r sail ar gyfer llwyddiant Addysg a Dysgu Gydol Oes yn y dyfodol ym Mro Morgannwg.

## FFRAMWAITH CYFLE CYFARTAL

Mae cyfle cyfartal yn sail i'r Cynllun Addysg Sengl ac mae'r cynllun yn adlewyrchu ymrwymiad i gyfle cyfartal o ran cyflogaeth a manteisio ar wasanaethau addysg. Mae atebolrwydd a gofynion deddfwriaethol penodol yn cynnwys y canlynol:

1. **Deddf Gwahaniaethu ar Sail Rhyw 1975**

Mae'r Ddeddf hon yn pennu ei bod yn anghyfreithlon gwahaniaethu ar sail rhyw ym maes cyflogaeth ac wrth ddarparu gwasanaeth. Mae'r Ddeddf yn berthnasol i ddynion a menywod ac mae'n golygu ei bod yn anghyfreithlon:

- Gwahaniaethu yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ar sail rhyw neu statws priodasol
- Pennu amodau sy'n cael effaith anfanteisiol mewn ffordd anghyfartal ar bobl o ryw neu statws priodasol penodol, lle nad oes modd cyfiawnhau'r rhain
- Defnyddio hysbysebu sy'n gwahaniaethu
- Rhoi pwysau i wahaniaethu neu gynorthwyo gwahaniaethu gan rywun arall

Mae aelodau'r Cyngor a'i ysgolion yn rhannu'r cyfrifoldeb dros sicrhau bod nodau Deddf Gwahaniaethu ar Sail Rhyw 1975 yn cael eu hyrwyddo a'u gweithredu yn deg ac yn effeithiol yn eu prosesau recriwtio a thrwy gynnig cwricwlwm eang a chytbwys i bob disgybl.

2. **Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd 2001 a Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 2005),**

Mae gan y Cyngor a'i ysgolion ddyletswydd i gynyddu'r cyfleoedd i ddisgyblion anabl ac eraill fanteisio ar ysgolion mewn ffordd flaengar. Mae'r ddeddfwriaeth sy'n cynorthwyo disgyblion anabl yn cynnwys tair elfen;

- Y Fframwaith AAA (Rhan IV Deddf Addysg 1996)
- Dyletswyddau gwahaniaethu ar sail anabledd
- Dyletswyddau cynllunio

O fewn y dyletswyddau cynllunio, mae'r Cyngor wedi datblygu Strategaeth Hygyrchedd ac mae ei ysgolion wedi datblygu Cynlluniau Mynediad, sy'n nodi'r camau gweithredu er mwyn gwella hygyrchedd gydag amser.

Un o nodau'r Gyfarwyddiaeth Dysgu a Datblygu fel y nodwyd yn y Cynllun Corfforaethol yw hyrwyddo system gynhwysol sy'n sicrhau bod cyfleoedd dysgu ar gael i bawb, lle y mae pawb yn cael eu cynorthwyo i wireddu eu potensial yn llawn a byw bywyd llawn. Mae pob ysgol yn rhwym i Ran 2 Deddf AAA ac Anabledd 2001 sy'n eu gwahardd rhag gwahaniaethu yn erbyn plant anabl ac yn mynnu eu bod yn cymryd camau rhesymol i sicrhau na fyddant dan anfantais sylweddol. Mae'r Cyngor yn cefnogi trefniadau i recriwtio a chadw staff anabl, a mwy o gyfranogiad gan ddisgyblion anabl, rhieni anabl a phobl anabl ym mhob agwedd ar fywyd yr ysgol.

3. **Deddf Cysylltiadau Hiliol 1976 a Deddf Cysylltiadau Hiliol (diwygiad) 2000**

Mae Deddf Cysylltiadau Hiliol 1976 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygiad) 2000) yn pennu **dyletswydd gyffredinol** ar yr AALl a'i ysgolion i hyrwyddo cydraddoldeb hiliol. Dan y ddyletswydd, pan fyddant yn cyflawni eu dyletswyddau, rhaid i'r Cyngor ac ysgolion geisio:

- Gwaredu gwahaniaethu anghyfreithlon
- Hyrwyddo cyfle cyfartal; a
- Hyrwyddo perthynas dda rhwng pobl o wahanol grwpiau hiliol.

Mae'r Ddeddf yn nodi **dyletswyddau penodol** o ran llunio polisïau, darparu gwasanaeth a chyflogaeth hefyd er mwyn cynorthwyo'r Cyngor a'i ysgolion i gyflawni'r ddyletswydd gyffredinol ac i wella perfformiad.

Dan y dyletswyddau penodol er mwyn llunio polisïau a darparu gwasanaeth, mae'r Cyngor wedi cyhoeddi ei Gynllun Cydraddoldeb Hiliol ac mae ysgolion yn datblygu ac yn cyhoeddi eu Polisïau Cydraddoldeb Hiliol. Mae holl bolisïau'r Cyngor yn rhwym i Asesiad Effaith Hiliol, mewn rhaglen dreigl.

Darparir hyfforddiant i ysgolion er mwyn delio â materion cydraddoldeb hiliol trwy ddatblygu'r cwricwlwm a thrwy gyfrwng partneriaethau gydag ysgolion sy'n cynnwys amrywiaeth ethnig o ddisgyblion. Caiff cyfradd gyflawniad, cyfradd fynychu a chyfradd wahardd disgyblion o deuluoedd lleiafrifoedd ethnig, eu monitro, a cheir trefniadau ymyrryd trwy gyfrwng Grant Ariannu Ysgolion Gwell EMAG sydd wedi galluogi'r Cyngor i weithio mewn partneriaeth gyda gwasanaeth EMAG Caerdydd.

Mae ysgolion yn cael eu cynorthwyo wrth ymateb i ddigwyddiadau hiliol. Cyflwynir adroddiadau chwarterol i'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol.

Mae'r Cyngor yn parhau i weithredu Cytundeb Lefel Gwasanaeth gyda Race Equality First sy'n darparu cyngor a chymorth i ysgolion, gan weithio gyda nhw ar brosiectau penodol i hyrwyddo harmoni ac ymwybyddiaeth hiliol.

4. **Deddf yr Iaith Gymraeg 1993**

Mae'r Cyngor yn rhoi cryn bwys ar gyflawni ei gyfrifoldebau fel corff cyhoeddus dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993. Wrth lunio a gweithredu'r Cynllun Addysg Sengl hwn, cawsom ein harwain gan bolisi a Chynllun Iaith Gymraeg y Cyngor, sy'n elfen bwysig o'r fframwaith cydraddoldeb.

Dan amodau Adran 5 y Ddeddf, rydym wedi drafftio Cynllun Iaith Gymraeg hefyd, sy'n disgrifio'r weledigaeth a'r nodau wrth ddarparu Addysg Gymraeg ym Mro Morgannwg a'r targedau ar gyfer datblygu. Mae'r targedau hyn yn ymwneud â'r ddarpariaeth blynyddoedd cynnar, cynradd, uwchradd ac anghenion addysgol arbennig trwy gyfrwng y Gymraeg, ynghyd â rôl y Gwasanaeth Gwella Ysgolion, partneriaethau, recriwtio ac addysg gymunedol. Nod y Cynllun drafft yw sicrhau bod y ddarpariaeth:

- Yn cyflawni egwyddorion allweddol cydraddoldeb, dewis a chyfle i bawb
- Yn parchu, yn hyrwyddo ac yn ymgorffori amrywiaeth ieithyddol a diwylliannol Bro Morgannwg a Chymru
- Yn cydnabod treftadaeth Gymreig gyffredin
- Yn adlewyrchu anghenion cymdeithasol, economaidd a diwylliannol Cymru yn yr unfed ganrif ar hugain
- Yn cynnig y cyfle i ystyried a datblygu hunaniaeth bersonol ac ymdeimlad o le a chymuned, ac
- Yn cyd-fynd â'r dyheadau cenedlaethol a nodwyd yn Iaith Pawb

Wrth gyflawni'r weledigaeth hon, bydd y Cyngor yn gweithio tuag at gyfle cyfartal i fanteisio ar yr iaith Gymraeg a darpariaeth trwy gyfrwng y Gymraeg, trwy ddarparu:

- Rhaglen ymarferol i hyrwyddo ymwybyddiaeth o gyfleoedd addysg cyfrwng Cymraeg a hyrwyddo'r iaith ym Mro Morgannwg trwy gyfrwng addysg
- Addysg cyfrwng Cymraeg i'r holl rieni sy'n dymuno i'w plant ei gael, a'r holl fyfyrwyr hynny sy'n ei ddymuno ym mhob sector a chyfnod mewn addysg statudol
- Mwy o gyfleoedd i barhau dysgu cymunedol ac anffurfiol, yn ddwyieithog neu thrwy gyfrwng y Gymraeg ac
- Addysgu hanfodion dwyieithrwydd i bob plentyn ac unigolyn ifanc trwy ddarpariaeth y blynyddoedd cynnar a'r cwricwlwm cenedlaethol yn ystod cyfnodau allweddol 1-4 a datblygu dilyniant o ran sgiliau dwyieithog a Chymraeg.

## BLAENORIAETH 1

Dysgu
a
Chyflawniad

Dysgu a Chyflawniad

# BLAENORIAETH 1

## NOD ALLWEDDOL: 1:1 Cynorthwyo datblygiad ysgolion fel adnodd dysgu allweddol yn y gymuned

**Pam bod hwn yn nod allweddol?**
Credwn y dylai ysgolion gael rhan bwysig wrth helpu i greu cymunedau cryf a gweithredol a bod y berthynas rhwng ysgol a'i chymuned yn hanfodol wrth sicrhau dysgu effeithiol. Dylai'r ysgol fod yn ffocws i weithgarwch cymunedol ac yn asiant pwerus ar gyfer datblygiad y gymuned honno gan ddarparu ystod o wasanaethau a chyfleusterau i ddiwallu anghenion ei disgyblion, eu teuluoedd a'r gymuned ehangach.

| GWEITHREDU | MONITRO a GWERTHUSO | CANLYNIADAU ALLWEDDOL 2006 - 08 |
|---|---|---|
| Hyrwyddo a chynorthwyo datblygiad ysgolion fel adnodd dysgu allweddol yn y gymuned | ▪ Y Cyngor – yn erbyn canlyniadau y cytunwyd arnynt:<br>- Cabinet<br>- Pwyllgor Craffu<br>- Tîm Rheoli Corfforaethol<br>▪ Lefel clwstwr<br>- Bwrdd Rheoli Clwstwr yn erbyn canlyniadau allweddol a nodwyd mewn cynlluniau strategol clystyrau | ▪ Mesurau canlyniad y cytunwyd arnynt yn bodoli<br>▪ Adroddiadau monitro wedi'u cynnwys yn rhaglen y Cabinet a'r Pwyllgor Craffu<br>▪ Byrddau Rheoli Clwstwr a sefydlwyd yn cytuno ar y ddarpariaeth leol wedi'i seilio ar angen a nodwyd<br>▪ Darparwyd Gwasanaethau Ansawdd a/neu fe'u cyfeiriwyd gan ysgolion |
| Cynnal archwiliad o angen a llunio Proffil Deallusrwydd ar gyfer pob clwstwr o ysgolion a nodwyd. | ▪ Bwrdd Rheoli yn monitro blaenoriaethau clystyrau<br>▪ Y Cyngor yn monitro a gwerthuso Cynlluniau Gweithredu Clystyrau | ▪ Lluniwyd Proffiliau Deallusrwydd (IPs) ar gyfer pob clwstwr<br>▪ Defnyddiwyd IPs gan Fyrddau Rheoli i flaenoriaethu meysydd er mwyn eu datblygu |
| Pennu trefniadau cyfathrebu rhwng y Cyngor a rheolwyr dysgu clwstwr | ▪ Bwrdd Rheoli Clwstwr trwy gyfrwng y Rheolwr Dysgu<br>▪ Swyddog y Cyngor sy'n gyfrifol am Ysgolion Bro (YB) | ▪ Sefydlwyd patrwm cyfarfod y cytunwyd arno<br>▪ Sefydlwyd trefniadau cyfathrebu dwyffordd effeithiol |

| GWEITHREDU | MONITRO a GWERTHUSO | CANLYNIADAU ALLWEDDOL 2006 - 08 |
| --- | --- | --- |
| Hwyluso a darparu seminarau codi ymwybyddiaeth i aelodau etholedig ac adrannau eraill y cyngor. | ▪ Ffurflenni gwerthuso cwrs | ▪ Mae gan Aelodau ac adrannau'r Cyngor fwy o ddealltwriaeth o<br>- Rôl y Cyngor<br>- Goblygiadau Strategaeth i gymunedau<br>- Mater Adnoddau |
| Cynorthwyo sefydlu Canolfannau Plant Integredig (ICC) mewn ysgolion a sicrhau y darparir ystod gynyddol o wasanaethau yn y gymuned. | ▪ Tîm Rheoli Addysg<br>▪ Pennaeth Gwasanaethau Plant<br>▪ Bwrdd Rheoli Clwstwr | ▪ Sefydlwyd ICCs sy'n darparu gwasanaethau o ansawdd i'r gymuned – wedi'i seilio ar yr angen a nodwyd |
| Ymestyn rhaglenni Iaith a Chwarae (LAP) a Rhifau a Chwarae (NAP) yng nghymunedau'r Fro | ▪ Monitro'r niferoedd sy'n manteisio ar y ddwy raglen a'u cynaladwyedd<br>▪ Gwerthuso ymatebion gan arweinwyr grŵp, rhieni a gofalwyr | ▪ Rhaglenni LAP ac NAP yn rhan annatod o ysgolion a grwpiau cymunedol<br>▪ Mae'r rhaglenni yn gynaliadwy<br>▪ Mae rhieni a gofalwyr yn cynorthwyo dysgu cynnar eu plant mewn ffordd fwy effeithiol |
| Gwneud yn siŵr bod pobl ifanc ac oedolion yn sicrhau safonau priodol o ran sgiliau sylfaenol (gan gynnwys llythrennedd ariannol) | ▪ Asesiadau cychwynnol o ddysgwyr sy'n dilyn rhaglenni dysgu achrededig<br>▪ Cyfeiriadau i'r Gwasanaeth Sgiliau Sylfaenol | ▪ Cynyddu nifer y dysgwyr sy'n cyflawni lefel 1 |
| Cynnal partneriaethau gyda sefydliadau eraill i hyrwyddo Cymraeg yn y gymuned ehangach e.e. Mudiad Ysgolion Meithrin, Menter Iaith, yr Urdd | Cynghorydd Cwricwlwm (Cymraeg) i fonitro datblygiad partneriaethau ac archwilio a gwerthuso canlyniadau'r ddarpariaeth | ▪ Pob sefydliad yn gweithio ar gynllun cyffredin i wella sefyllfa'r Gymraeg yn y gymuned. |

Mae nod allweddol 1.1 yn gysylltiedig â'r canlynol:

(i) Cynlluniau Gwasanaeth:
Gwella Ysgolion
Strategaeth Berfformio a Rheolaeth Strategol Dysgu Gydol Oes

(ii) Eraill:
Cynllun Corfforaethol
Cynllun Addysg Gymraeg
Ysgolion Bro

# BLAENORIAETH 1

Dysgu
a
Chyflawniad

## NOD ALLWEDDOL 1:2 Cydweithio'n agosach trwy gyfrwng partneriaethau aml-asiantaeth gan gynnwys y Bartneriaeth Fframwaith Plant a Phobl Ifanc, Rhwydwaith Dysgu y Fro, Diogelwch Cymunedol, y Tîm Troseddu Ieuenctid, yr Heddlu, a'r Gwasanaeth Iechyd lleol

**Pam bod hwn yn nod allweddol?**
Mae'r Awdurdod yn cydnabod yr angen i weithio mewn partneriaethau aml-asiantaeth i hyrwyddo hawl pob dysgwr i fanteisio ar ddarpariaeth ddysgu o ansawdd

| GWEITHREDU | MONITRO a GWERTHUSO | CANLYNIADAU ALLWEDDOL 2006-08 |
|---|---|---|
| Datblygu rhwydweithiau rhyngasiantaethol ac amlddisgyblaeth pellach i gynorthwyo disgyblion sy'n cael anawsterau.<br><br>Codi proffil plant a phobl ifanc wrth ddatblygu cynlluniau a strategaethau: Strategaeth Gomisiynu ar y Cyd; Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles; Strategaeth Diogelwch Cymunedol; Cynllun Cyfiawnder Ieuenctid; Cynllun Gweithredu Camddefnyddio Sylweddau. | ▪ Monitro a gwerthuso Cynlluniau Partneriaeth y Fframwaith Plant a Phobl Ifanc bob blwyddyn yn ystod tymor yr haf<br>▪ Tîm rheoli Mynediad a Chynhwysiad yn dadansoddi data ac yn adrodd i Lywodraeth Cynulliad Cymru (LlCC) bob blwyddyn ym mis Ionawr<br>▪ Grŵp strategaeth Rhoi Plant yn Gyntaf yn casglu data a'i ddadansoddi yn flynyddol yn ystod tymor yr haf.<br>▪ Adroddiadau perfformio chwarterol i'r pwyllgor Craffu.<br><br>▪ Tîm rheoli Mynediad a Chynhwysiad yn monitro gwaharddiadau wrth iddynt gael eu hadrodd gan wneud cyfeiriadau priodol at wasanaethau eraill er mwyn | ▪ Disgyblion dan anfantais a'r rhai sydd mewn perygl yn cael eu cynnwys yng ngwasanaethau'r brif ffrwd:<br>- Mwy o ddisgyblion sydd ag Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) yn gweithredu gan yr ysgol a mwy neu sydd â Datganiadau AAA yn ysgolion y brif ffrwd yn hytrach nag ysgolion arbennig<br>- Cydlynwyr Plant sy'n Derbyn Gofal (LAC) mewn ysgolion yn gweithio gyda'r tîm Rhoi Plant yn Gyntaf i nodi a chynorthwyo LAC. Cynnydd yng nghyflawniad a lefelau mynychu LAC a gostyngiad mewn gwaharddiadau. Gostyngiad yn nifer y LAC sy'n gadael yr ysgol heb unrhyw gymwysterau cydnabyddedig, boed hynny mewn ysgolion a gynhelir gan y Fro neu mewn darpariaeth y tu allan i'r sir<br>- Gostyngiad mewn gwaharddiadau. |

| | | |
|---|---|---|
| | atal gwaharddiadau pellach. | |

| GWEITHREDU | MONITRO a GWERTHUSO | CANLYNIADAU ALLWEDDOL 2006-08 |
|---|---|---|
| | Cyfarfod tymhorol y Tîm Gweithredu Camddefnyddio Sylweddau: is-grŏp Atal, addysg a hyfforddiant (SMAT PET) yn monitro data tymhorol ynghylch gwaharddiadau gan y Tîm Mynediad a Chynhwysiad gan werthuso effeithiolrwydd ymyrraeth fel dewis amgen i wahardd parhaol.<br>▪ Grŏp strategaeth Gofalwyr Ifanc yn monitro cyfeiriadau gan nodi bylchau yn y gwasanaeth a ddarparir.<br>▪ Grŏp llywio y Tîm Troseddu Ieuenctid (TTI) yn monitro safon 11 y Cynllun Cyfiawnder Ieuenctid gan nodi a dadansoddi diffyg mewn perfformiad.<br>▪ Partneriaeth strategol CAMHS yn casglu ac yn dadansoddi data perfformio gan y Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS). Plant sâl sy'n cael addysg yn cael eu monitro a'u trafod yn ystod cyfarfod rheolaidd rhwng Education Otherwise Than At Schools (EOTAS), Gwasanaeth Meddygol Ysgol a CAMHS. | ▪ Gostyngiad yn nifer y disgyblion a waharddir oherwydd digwyddiadau sy'n ymwneud â chamddefnyddio sylweddau.<br>▪ Nodi gofalwyr ifanc a'u cysylltu gyda rhwydweithiau cymorth.<br>▪ Disgyblion sy'n ymwneud â gweithgarwch troseddol yn mynychu rhaglen addysg 25 awr.<br>▪ Disgyblion sy'n sâl a'r rhai sydd â salwch meddwl yn cael cynnig gwasanaethau priodol. |
| Adolygu panel rhyngasiantaethol gyda gwasanaethau plant ac iechyd, adolygu protocolau ar gyfer LAC sydd ag AAA ac yn enwedig y rhai mewn darpariaeth y tu allan i'r sir, datblygu gwasanaethau ar y cyd i fonitro a gostwng nifer y lleoliadau y tu allan | ▪ Monitro a gwerthuso lleoliadau yn ystod cyfarfod wythnosol y panel lleoli, gwaith monitro misol gan y Penaethiaid Gwasanaeth: Mynediad a Chynhwysiad a Gwasanaethau Plant. | ▪ Gostyngiad mewn LAC sy'n mynychu darpariaeth amgen / darpariaeth y tu allan i'r sir. |

| | | |
|---|---|---|
| i’r sir. | | |

| GWEITHREDU | MONITRO a GWERTHUSO | CANLYNIADAU ALLWEDDOL 2006-08 |
|---|---|---|
| Cryfhau partneriaethau gweithrediadol gyda gwasanaethau plant ac iechyd i sicrhau y bodlonir anghenion iechyd plant sydd ag AAA ac anableddau. | ▪ Adolygiad tymhorol gan y Grǒp Gweithrediadol: Gwasanaethau Cymorth Disgyblion (PSS), Gwasanaethau Plant, Prif Swyddog Meddygol Ysgolion (PSMO) a rheolwyr gwasanaethau nyrsio a therapi mewn ysgolion.<br>▪ Cynhelir cyfarfodydd tîm amlddisgyblaethol misol yng Nghanolfan Blant Llandochau, a fynychir gan gynrychiolwyr PSS (EPs a/neu Athrawon Arbenigol) sy'n cyfarfod â Phaediatregwyr Cymunedol, Therapyddion o'r Ganolfan Blant ac Ymwelwyr Iechyd i drafod, cyfeirio ac adolygu plant dan oed ysgol sydd ag Anghenion Addysgol Arbennig. | ▪ Disgyblion mewn ysgolion yn manteisio ar drefniadau ymyrryd iechyd a therapi priodol. Rhennir cynlluniau Iechyd a chynlluniau'r Awdurdod Lleol. Darparir cyngor iechyd yn unol ag amserlenni statudol. |
| Hyrwyddo ac annog ffyrdd o fyw a datblygiad iach pob plentyn ac unigolyn ifanc trwy gyfrwng y fenter Ysgolion Iach. Hyrwyddo rôl Nyrs yr Ysgol fel y prif weithiwr iechyd proffesiynol mewn ysgolion i gynorthwyo dosbarthiadau ynghylch bwyta'n iach, ysmygu, cyffuriau, alcohol, addysg rhyw a thyfu i fyny. | ▪ Grǒp Llywio Ysgolion Iach i fonitro cyfranogiad ysgolion yn y fenter Ysgolion Iach gan adolygu gweithgareddau a ddatblygwyd ac a gynhaliwyd gan ysgolion unigol | ▪ 100% o ysgolion i sicrhau achrediad 'Ysgolion Iach' erbyn 2010.<br>▪ Adroddiadau gan ysgolion yn sôn am ymddygiad gwell gan ddisgyblion, yn enwedig yn ystod yr egwyl cinio.<br>▪ Gostyngiad mewn gwaharddiadau<br>▪ Gostyngiad mewn gordewdra<br>▪ Cyflawniad gwell gan ddisgyblion |
| Adolygu'r Gwasanaeth Partneriaeth Rhieni a'r Gwasanaeth Datrys Anghydfod. | ▪ Cyfarfod blynyddol rhwng HoS a SNAP i ystyried adroddiad a gwerthuso'r defnydd a wneir o'r gwasanaeth. | ▪ 100% o rieni disgyblion sydd ag AAA yn cael gwybodaeth am y Gwasanaeth Partneriaeth Rhieni.<br>▪ 100% o rieni disgyblion sydd â datganiadau AAA arfaethedig yn cael gwybodaeth am y Gwasanaeth Datrys |

| | | |
|---|---|---|
| | | Anghydfod.<br>▪ Gostyngiad yn nifer y cyfeiriadau i'r Tribiwnlys AAA. |

| GWEITHREDU | MONITRO a GWERTHUSO | CANLYNIADAU ALLWEDDOL 2006-08 |
|---|---|---|
| Datblygu protocol pontio i ddisgyblion sydd ag AAA, ar y cyd â'r Gwasanaeth Plant sydd ag Anableddau. | ▪ Rheolwr y Gwasanaeth Cymorth i Ddisgyblion, gyda'r tîm gweinyddol a Rheolwr Tîm y Gwasanaeth Plant sydd ag Anableddau, yn monitro a gwerthuso. | ▪ Mae gan 100% o'r disgyblion sydd ag AAA a'r rhai sydd ag anableddau, gynllun pontio o flwyddyn 9 ymlaen.<br>▪ Caiff disgyblion eu cyfeirio i'r gwasanaethau oedolion pan fo hynny'n briodol, yn unol â'r protocol. |
| Datblygu protocol asesu er mwyn neilltuo offer arbenigol. | ▪ Yr adran Iechyd Galwedigaethol ac Ysgolion yn ystyried adroddiadau a cheisiadau am offer.<br>▪ Panel cyllideb AAA yn monitro prynu a gwariant bob pythefnos.<br>▪ Gwaith monitro traws-asiantaethol a chan yr awdurdod lleol o'r Gwasanaeth Offer ar y Cyd (JES-Caerdydd a'r Fro) | ▪ Protocol er mwyn neilltuo offer yn cael ei weithredu.<br>▪ Gwasanaeth Offer ar y Cyd yn gweithredu ar draws Caerdydd a'r Fro.<br>▪ Egluro cyfrifoldebau cyllidebol.<br>▪ Datblygwyd panel offer arbenigol aml-asiantaeth. |

Mae nod allweddol 1.2 yn gysylltiedig â'r canlynol: (i) Cynlluniau Gwasanaeth: Mynediad a Chynhwysiad

(ii) Eraill: Cynllun Fframwaith Plant a Phobl Ifanc, Cynllun Plant, Cynllun Pobl Ifanc, Cynllun Cymorth, Strategaeth Gomisiynu ar y Cyd; Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles; Strategaeth Diogelwch Cymunedol; Cynllun Cyfiawnder Ieuenctid; Cynllun Gweithredu Camddefnyddio Sylweddau; Fframwaith cynhwysiad

Dysgu
a
Chyflawniad

# BLAENORIAETH 1

## NOD ALLWEDDOL 1:3 Darparu gwasanaethau arbenigol i grwpiau penodol o ddysgwyr sy’n tangyflawni

**Pam bod hwn yn nod allweddol?**
Mae'r Awdurdod yn cydnabod bod gan rai disgyblion anghenion dysgu ychwanegol (ALN) a bod angen gwasanaethau arbenigol arnynt er mwyn iddynt allu manteisio ar y cwricwlwm a’r amgylchedd i sicrhau eu cynhwysiad llawn yn yr ysgol a’u cymuned, a’u helpu i wireddu eu potensial

| GWEITHREDU | MONITRO a GWERTHUSO | CANLYNIADAU ALLWEDDOL 2006-08 |
|---|---|---|
| Cynorthwyo ysgolion ac asiantaethau eraill i nodi’r disgyblion hynny sydd ag anghenion addysgol arbennig yn gynnar.<br><br>Adolygu meini prawf er mwyn manteisio ar drefniadau ymyrryd a gwasanaethau ychwanegol i ddisgyblion sydd ag ALN, gan sicrhau bod y broses o neilltuo adnoddau yn dryloyw. Nodi a manteisio ar AAA disgyblion yn unol â'r Cod Ymarfer AAA i Gymru. | ▪ Ymweliadau trefnedig gan y Gwasanaeth Seicoleg Addysg (EPS) ac aelodau eraill PSS.<br>▪ Gwerthuso hyfforddiant y nodwyd bod ei angen ar ysgolion, ac a ddarparwyd<br>▪ Adroddiadau chwarterol i’r pwyllgor Craffu ynghylch perfformiad datganiadau a gyhoeddwyd. | ▪ Camau ymyrryd sy’n nodi cyfrifoldebau a mecanweithiau cyfeirio a rennir gydag ysgolion ac a ddeallir ganddynt.<br>▪ Nodi disgyblion sydd ag anghenion ychwanegol a’u cyfeirio at wasanaethau pan fo hynny’n briodol<br>▪ Cytuno ar ddisgrifwyr er mwyn gosod disgyblion ar lefelau. |
| Adolygu’r Fframwaith Cynhwysiad gan sicrhau bod trefniadau wedi cael eu gwneud i gynorthwyo cynnwys plant a phobl ifanc sydd ar y cyrion, sy’n agored i niwed neu, mewn amgylchiadau arbennig, sydd mewn darpariaeth addysg briodol, gan roi ystyriaeth briodol i Ymgynghoriad Llywodraeth y Cynulliad ynghylch Cynhwysiad a Chymorth i Ddisgyblion.<br><br>Monitro cyfraddau mynychu, gwahardd a chyflawniad teithwyr, disgyblion o | Monitro gan:<br>- Gwasanaeth Cymorth i Ddisgyblion<br>- Grŵp plant anodd i’w lleoli/derbyn wythnosol<br>- Adolygiad Rhoi Plant yn Gyntaf<br>- Grŵp llywio TTI<br>- Cynghorwyr Cyswllt Ysgol<br>- Cynghorydd AAA<br>- Gwasanaeth Gwella Ysgolion – ymweliadau ysgol a chymorth wedi’i dargedu | ▪ Disgyblion ar y cyrion, disgyblion sy’n agored i niwed neu ddisgyblion mewn amgylchiadau arbennig yn cael eu cynnwys yn ysgolion y brif ffrwd.<br>▪ Gostyngiad mewn gwaharddiadau.<br>▪ Cynnydd mewn lefelau mynychu<br>▪ Rhaglen dreigl marc ansawdd cynhwysiad ar draws ysgolion |

| | | |
|---|---|---|
| deuluoedd ethnig lleiafrifol, disgyblion sâl, disgyblion a waharddwyd, disgyblion sy'n pontio i'r AALl, merched ysgol beichiog a mamau oed ysgol a disgyblion sy'n anodd i'w lleoli, ac ymgysylltu â nhw wrth gynllunio eu darpariaeth. | EWS, gyda'r Gwasanaeth Nyrsio Ysgol, i fonitro disgyblion sy'n absennol o'r ysgol am gyfnodau byr yn aml oherwydd salwch. | |
| Annog merched ysgol beichiog a mamau oed ysgol i fynychu'r ysgol gymaint ag y bo modd ac i fanteisio ar Brosiect Partneriaeth Cymru i Rieni Ifanc yng Ngholeg Gladstone gan fynychu sesiynau Parentcraft a gweithgareddau addysg, iechyd a chymdeithasol cysylltiedig. | Monitro'r defnydd a wneir o'r ddarpariaeth gan ddisgyblion dan 16 oed cofrestru deuol ac ystyried cofrestru priodol. Grŵp Llywio y Bartneriaeth i Rieni Ifanc yn monitro ac yn adrodd ynghylch y defnydd a wneir o'r ddarpariaeth a lefelau mynychu a chyflawniad yr holl fyfyrwyr. | ▪ Merched ysgol beichiog a mamau oed ysgol i gael addysg briodol a sicrhau cymwysterau a chael cymorth i symud ymlaen i addysg bellach, hyfforddiant neu gyflogaeth pan fyddant yn cyrraedd diwedd yr oedran ysgol statudol. Merched ysgol beichiog a mamau oed ysgol i gael sgiliau Parentcraft priodol yng Ngholeg Gladstone wrth iddynt fynychu eu coleg prif ffrwd. |

| GWEITHREDU | MONITRO a GWERTHUSO | CANLYNIADAU ALLWEDDOL 2006-08 |
|---|---|---|
| Hyrwyddo a monitro lleoliad addysgol, cyflawniad a chyrhaeddiad LAC. Gweithio gyda Gwasanaethau Plant i sicrhau bod Cynlluniau Addysg Personol (PEPs) yn bodoli cyn pen 20 diwrnod ysgol o gychwyn mewn sefyllfa ofal neu ysgol newydd. | ▪ Tîm Rhoi Plant yn Gyntaf yn gwneud gwaith blynyddol i gasglu a dadansoddi ystadegau.<br>▪ Cyflwyno adroddiadau chwarterol am berfformiad PEPs i'r pwyllgor Craffu. | ▪ Disgyblion LAC newydd yn cael lle mewn ysgol cyn pen 20 diwrnod o dderbyn gofal.<br>▪ Gwelliant o 10% yng nghyrhaeddiad LAC o'u cymharu â sgorau 05-06.<br>▪ Gostyngiad o 10% yn nifer y disgyblion LAC sy'n gadael gofal heb unrhyw gymhwyster cydnabyddedig o'i gymharu â data 05-06. (LAC sy'n mynychu ysgolion a gynhelir gan y Fro a darpariaeth y tu allan i'r sir)<br>▪ Cynnydd o 20% yn nifer y PEPS sy'n bodoli cyn pen 20 diwrnod o'i gymharu â data 05-06. |
| EMAS ac ysgolion i nodi disgyblion y mae'r Saesneg yn ail iaith iddynt ac sydd ag AAA posibl, a'u hasesu yn unol â'r Cod Ymarfer AAA i Gymru, eu cyfeirio am asesiad statudol, cyhoeddi Datganiad AAA a sicrhau darpariaeth arbenigol ar eu cyfer i ddiwallu anghenion addysgol pan fo hynny'n berthnasol. | ▪ Tîm Rheoli Cynhwysiad a Mynediad i fonitro data bob blwyddyn. Ysgolion i fonitro ac adolygu cynnydd disgyblion unigol yn unol â'r Cod Ymarfer AAA i Gymru. | ▪ Disgyblion y mae'r Saesneg yn ail iaith iddynt ac y nodwyd bod ganddynt AAA, i gael darpariaeth addysgol briodol i'w galluogi i sicrhau cynnydd addysgol priodol. |
| Gydag uned cydraddoldeb y Cyngor, adolygi polisïau a gweithdrefnau i hyrwyddo cydraddoldeb hiliol, a chofnodi digwyddiadau hiliol.<br><br>Datblygu a hwyluso rhaglenni hyfforddi priodol i ysgolion er mwyn hyrwyddo ymwybyddiaeth hiliol. Dadansoddi | ▪ Tîm Mynediad a Chynhwysiad yn monitro data gyda Chydraddoldeb Corfforaethol gan werthuso rhaglenni hyfforddi a chydymffurfio gyda gofynion adrodd a chofnodi digwyddiadau hiliol. | ▪ Mae 100% o'r Ysgolion yn gallu manteisio ar hyfforddiant amrywiaeth i gynorthwyo datblygiad polisi a chyflawniad disgyblion o deuluoedd teithwyr a lleiafrifoedd ethnig.<br>▪ Cynnydd yn y gweithgarwch i adrodd digwyddiadau hiliol mewn ysgolion. |

| | | |
|---|---|---|
| adroddiadau arolygu Estyn ynghylch amrywiaeth. | | |
| Adolygu'r ddarpariaeth a'r ymyrraeth i ddisgyblion sydd ag anawsterau emosiynol, cymdeithasol ac ymddygiadol, yn enwedig o ran yr Uned Cyfeirio Disgyblion (PRU) a'r ddarpariaeth yng Nghyfnod Allweddol 4.<br><br>Pennu'r berthynas rhwng mynychu, gwahardd a pherfformiad disgyblion, gan ddarparu adroddiadau tymhorol i uned ddata SIS. Datblygu strategaethau gydag ysgolion i wella'r meysydd hyn. | ▪ Adrodd data gwahardd i'r pwyllgor Craffu bob chwarter.<br>▪ Panel disgyblion anodd i'w lleoli/mynediad yn adrodd i'r tîm rheoli Mynediad a Chynhwysiad bob mis.<br>▪ Adroddiadau i gyfarfod tymhorol cynghorwyr cyswllt. | ▪ Gostyngiad mewn gwaharddiadau<br>▪ Gostyngiad yn yr amser y mae disgyblion yn parhau mewn PRU.<br>▪ Adolygu lleoliadau disgyblion mewn PRU ar ôl 6 mis.<br>▪ Gostyngiad yn nifer y disgyblion mewn darpariaeth amgen yn CA4. |

Mae nod allweddol 1.3 yn gysylltiedig â'r canlynol: (i) Cynlluniau Gwasanaeth: Mynediad a Chynhwysiad (ii) Eraill: Fframwaith Cynhwysiad; Cynllun Rhoi Plant yn Gyntaf; Strategaeth AAA

Dysgu a Chyflawniad

# BLAENORIAETH 1

**NOD ALLWEDDOL 1:4** **Sicrhau y gellir manteisio ar wasanaethau arbenigol a llai cyffredin trwy ddatblygiad pellach consortiwm rhanbarthol yr AALlau**

**Pam bod hwn yn nod allweddol?**
Er y bodlonir anghenion addysgol mwyafrif y disgyblion sydd ag anableddau yn ysgolion y Fro gan wasanaethau'r Fro, mae rhai yn manteisio ar drefniadau lle y ceir cydweithio gydag awdurdodau cyfagos. Mae disgyblion sydd â nam ar eu golwg a'u clyw yn manteisio ar wasanaethau athrawon arbenigol sy'n gweithio yn ysgolion y Fro neu i wasanaeth teithiol y Fro. Mae'r Fro yn gweithio gydag AALl Caerdydd i ddatblygu trefniadau i gynorthwyo disgyblion sydd ag MSI.
Mae'r Fro yn cynnal darpariaeth mewn uned arbenigol i ddisgyblion sydd â nam ieithyddol difrifol, fodd bynnag, mae'r Fro yn cydweithio gydag AALl Caerdydd sy'n cynnig darpariaeth i ddisgyblion cynradd sydd ag anawsterau difrifol a chymhleth ac y mae angen iddynt fod mewn amgylchedd iaith arwyddion.
Mae'r Fro yn darparu ar gyfer disgyblion sydd ag Anhwylder Sbectrwm Awtistiaeth (ASD) trwy fanteisio ar gymorth nifer o awdurdodau o Gymru (ac un yn Lloegr) yn ei hysgol arbenigol yn Ashgrove. Mae'n gweithio gydag AALl Caerdydd i ddatblygu cynigion ar gyfer darpariaeth breswyl a/neu egwyl ychwanegol i ddisgyblion sydd ag ASD difrifol a chymhleth, gyda'r nod o gynorthwyo rhieni i alluogi i'w plant barhau i fyw gartref.
Cynigir darpariaeth arbenigol i ddisgyblion uwchradd sydd ag anableddau corfforol difrifol yn Ysgol Erw'r Delyn. Lleolir nifer o ddisgyblion gan AALlau eraill cyfagos.

| GWEITHREDU | MONITRO a GWERTHUSO | CANLYNIADAU ALLWEDDOL 2006-08 |
|---|---|---|
| Comisiynu a darparu cymorth a chyngor arbenigol pan na fydd unrhyw ddarpariaeth o'r fath ar gael ar hyn o bryd. | ▪ Tîm Rheoli Addysg<br>▪ Grŵp Llywio Penaethiaid<br>▪ Bwrdd Rheoli Consortiwm | ▪ Ysgolion yn cael gwasanaethau perthnasol ac o ansawdd i gynorthwyo wrth godi safonau. |
| Egluro'r trefniadau i nodi a darparu trefniadau ymyrryd i ddisgyblion sydd â nam synhwyraidd. Adolygu'r gwasanaethau a ddarparir yn erbyn y safonau a argymhellir gan LlCC.<br><br>Adolygu lefelau staffio a hyrwyddo cyfleoedd hyfforddi i ddatblygu sgiliau'r gweithlu er mwyn delio ag anghenion llai cyffredin, gan weithio gydag awdurdodau cyfagos pan fo hynny'n briodol. | ▪ Monitro tymhorol gan y Pennaeth Gwasanaeth (HoS) a'r Rheolwr PSS gydag arweinwyr tîm Nam ar y Golwg (VI) a Nam ar y Clyw (HI). | ▪ Mesuriadau sylfaenol yn erbyn safonau.<br>▪ Pennwyd targedau i gyrraedd safonau ymyrryd a threfniadau addysgol i ddisgyblion sydd â nam synhwyraidd.<br>▪ Athro arbenigol ychwanegol wedi'i hyfforddi i gynorthwyo disgyblion sydd â nam ar eu golwg.<br>▪ Staff ysgol yn datblygu arbenigedd i gyflwyno cwricwlwm effeithiol |

| GWEITHREDU | MONITRO a GWERTHUSO | CANLYNIADAU ALLWEDDOL 2006-08 |
|---|---|---|
| Datblygu dewisiadau a chynigion i gynyddu'r ddarpariaeth breswyl ac i ddarparu seibiant i ddisgyblion sydd ag ASD difrifol a chymhleth, mewn partneriaeth ag awdurdodau cyfagos. | ▪ Y grŵp llywio i ddatblygu a monitro cynnydd y cynnig. | ▪ Sefydlwyd grŏp llywio rhwng AALlau Caerdydd a'r Fro, y Gwasanaethau Plant, yr Ymddiriedolaeth GIG a Bwrdd Iechyd Lleol (BILI) Caerdydd a'r Fro.<br>▪ Cyflwynwyd cynnig ariannu cyfalaf ar gyfer darpariaeth newydd i LICC. |

Mae nod allweddol 1.4 yn gysylltiedig â'r canlynol:

(i) Cynlluniau Gwasanaeth:
Mynediad a Chynhwysiad

(ii) Eraill:
Fframwaith Cynhwysiad
Strategaeth AAA

Dysgu
a
Chyflawniad

# BLAENORIAETH 1

## NOD ALLWEDDOL 1:5 Hyrwyddo cynhwysiad pellach plant sydd ag Anghenion addysgol arbennig (AAA) mewn lleoliad addysgol priodol

**Pam bod hwn yn nod allweddol?**
Cydnabyddir pwysigrwydd cynnwys disgyblion sydd ag AAA yn llawn yn eu cymuned leol. Nid oes modd eu cynnwys yn llawn pan fyddant yn mynychu ysgolion y tu allan i'w cymuned. I rai, sydd ag anghenion difrifol a chymhleth, efallai y bydd angen darpariaeth arbenigol rywbryd i helpu i ddatblygu eu sgiliau neu i ddarparu gwasanaethau iechyd arbenigol iddynt. Fodd bynnag, y nod i'r mwyafrif yw sicrhau bod iddynt fanteisio ar y gwasanaethau y mae eu hangen arnynt, yn eu hysgol leol. Felly, nod allweddol yw datblygu gallu ysgolion lleol y brif ffrwd i alluogi rhagor o blant sydd ag AAA i gael eu cynnwys, yn hytrach na mynychu ysgolion arbennig neu ddarpariaeth y tu allan i'w cymuned.

| GWEITHREDU | MONITRO a GWERTHUSO | CANLYNIADAU ALLWEDDOL 2006-08 |
|---|---|---|
| Integreiddio'r Strategaeth AAA gyda'r Fframwaith Cynhwysiad | ▪ Cynghorwyr Cyswllt i fonitro hyn trwy gyfrwng cyfarfodydd cyswllt<br>▪ Cynghorydd AAA i fonitro hyn trwy gyfrwng adolygiadau ac arolygiad allanol. | ▪ Rhannu'r Fframwaith Cynhwysiad a gwblhawyd, gydag ysgolion<br>▪ Gweithredwyd y strategaeth ar draws y Fro |
| Adolygu a datblygu'r strategaeth ymhellach i ddatblygu gallu ysgolion i ddiwallu ALN | ▪ Ymweliadau wedi'u cynllunio gan EPS a thîm PSS arall.<br>▪ Cyfarfod cynghorwyr cyswllt<br>▪ Archwiliad o anghenion hyfforddi gan SIS<br>▪ Gwerthuso hyfforddiant<br>▪ Ymweliadau clwstwr tymhorol AAA gan y cynghorwyr AAA a'r cynghorydd cyswllt | ▪ Disgyblion sydd ag AAA yn cael darpariaeth mewn lleoliad priodol i sicrhau y bodlonir eu hanghenion addysgol. |
| Monitro gweithrediad Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd ac AAA 2001 a'r Strategaeth Hygyrchedd sy'n deillio ohoni.<br><br>Sicrhau bod y Cyngor a'i ysgolion yn cydymffurfio gyda dyletswyddau statudol o ran y Cod Ymarfer AAA i Gymru. | ▪ Adolygiad 6 mis o'r strategaeth gyda HoS cynllunio strategol a pherfformiad.<br><br>▪ Adroddiadau chwarterol o berfformiad datganiadau AAA i'r pwyllgor Craffu | ▪ Gweithredir strategaeth hygyrchedd yn unol â'r strategaeth. |

| GWEITHREDU | MONITRO<br>a GWERTHUSO | CANLYNIADAU ALLWEDDOL<br>2006-08 |
|---|---|---|
| Cryfhau rôl SENCOs a datblygu rhwydweithiau SENCO effeithiol ymhellach i sefydlu proses o fonitro cynnydd disgyblion ar gofrestrau AAA, trwy weithredu'r deunyddiau B² a Mapio Darpariaeth | ▪ Monitro gwerthusiadau cwrs<br>▪ Cynghorwyr Cwricwlwm a Chyswllt | ▪ Mae SENCOs yn fwy effeithiol wrth nodi rhaglenni rheoli cymorth a hyrwyddo cynhwysiad mewn ysgolion<br>▪ Mapiau Darpariaeth Effeithiol ym mhob ysgol<br>▪ Athrawon dosbarth yn defnyddio deunyddiau asesu *B squared* ar gyfer gwahaniaethu a chynllunio. |
| Cyfrannu at Gynllun Addysg Gymraeg yr AALl, nodi a delio ag anghenion AAA a'r trefniadau i ddisgyblion sydd ag AAA yn ysgolion y brif ffrwd | ▪ Ymweliadau ysgol gan Gynghorwyr SIS<br>▪ Ymweliadau trefnedig gan EPS ac aelodau eraill PSS | ▪ Mae disgyblion mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn cael cymorth i ddiwallu anghenion a nodwyd |
| Datblygu gwasanaethau allymestyn gydag ysgolion arbennig, monitro effaith grant Datgloi Potensial Ysgolion Arbennig LlCC. | ▪ Cynghorydd AAA gyda HoS Mynediad a Chynhwysiad a'r Rheolwr PSS yn monitro cynlluniau gweithredu ysgolion.. | ▪ Datblygwyd cynllun gweithredu gan 3 ysgol arbennig.<br>▪ Datblygiad gwasanaethau allymestyn o Ashgrove, Ysgol Erw'r Delyn ac Ysgol Maes Dyfan.<br>▪ Darpariaeth well i'r disgyblion hynny sydd ag ASD, anableddau corfforol ac anawsterau dysgu difrifol mewn lleoliadau prif ffrwd. |

| GWEITHREDU | MONITRO<br>a GWERTHUSO | CANLYNIADAU ALLWEDDOL |
|---|---|---|
| Adolygu’r fformwla er mwyn neilltuo arian AAA, adolygu fformwla Rheolaeth Leol Ysgolion Arbennig (LMSS) a’r gyllideb i ystolion arbennig<br><br>Datblygu ac ymgynghori ar fodel dirprwyo pellach o ran dosbarthu arian AAA i ysgolion, gan sicrhau bod proses yn bodoli i fonitro rheolaeth, gwariant a chanlyniadau i ddisgyblion. | ▪ Grŏp adolygu AAA | ▪ Sefydlwyd panel cyllideb AAA.<br>▪ Ystyriwyd a chytunwyd ar fodelau dirprwyo.<br>▪ Ystyriwyd a chytunwyd ar broses i fonitro arian a ddirprwywyd. |

Mae nod allweddol 1.5 yn gysylltiedig â’r canlynol:

(i) Cynlluniau Gwasanaeth:
Gwella Ysgolion
Mynediad a Chynhwysiad

(ii) Strategaeth Hygyrchedd;
Cynllun Addysg Gymraeg
Fframwaith Cynhwysiad

Dysgu
a
Chyflawniad

# BLAENORIAETH 1

## NOD ALLWEDDOL: 1:6 Hyrwyddo safonau uchel o ran addysgu a dysgu

**Pam bod hwn yn nod allweddol?**
Mae gan bob dysgwr yn y Fro yr hawl i gael addysg o ansawdd. Mae angen i ni weithio gydag ysgolion i sicrhau bod pob dysgwr yn cael y cyfle i lwyddo trwy fanteisio ar gwricwlwm sy'n cyfateb â'u hanghenion a'u dyheadau ac a fydd yn rhoi'r sgiliau angenrheidiol iddynt yn ystod eu bywydau.

| GWEITHREDU | MONITRO a GWERTHUSO | CANLYNIADAU ALLWEDDOL 2006-08 |
|---|---|---|
| Sicrhau bod datblygiadau a chanfyddiadau ymchwil diweddar o ran dysgu yn cael eu hadlewyrchu yn ystafelloedd dosbarth ac ysgolion yr AALI | ▪ Cynghorwyr Cyswllt i fonitro adroddiadau hunanwerthuso ysgolion ar gyfer y Cynllun Datblygu Ysgol (SDPs) / Cynllun Gwella Ysgol (SIPs) o ran y Cynllun Addysg Sengl (SIP) a'r Gronfa Ysgolion Gwell (BSF)<br>▪ Monitro lefelau mynychu staff ysgol ym mhrif fentrau hyfforddi yr AALI<br>▪ Cynghorwyr Cwricwlwm i arsylwi a gwerthuso arfer yn y dosbarth<br>▪ Monitro adroddiadau arolygu Estyn. | ▪ Athrawon yn dangos ystod o strategaethau sy'n deillio o waith ymchwil addysgol a gynhaliwyd yn ddiweddar sy'n cael effaith amlwg ar ddysgu disgyblion.<br>▪ Adlewyrchir themâu allweddol yr AALI yn yr arfer a arsylwyd. |
| Sicrhau ymgysylltu â dysgwyr ac arfer effeithiol yn yr ystafell ddosbarth. | ▪ Cynghorwyr Cyswllt a Chwricwlwm i fonitro a gwerthuso adroddiadau hunanwerthuso ysgolion<br>▪ Gweithio mewn partneriaeth gydag ysgolion wrth arsylwi a gwerthuso arfer yn y dosbarth gan Gynghorwyr Cyswllt a Chwricwlwm | ▪ Athrawon yn defnyddio strategaethau addysgu a dysgu yn gyson e.e. o ran asesu ar gyfer dysgu a datblygiad sgiliau meddwl sy'n cael effaith amlwg ar ddysgu disgyblion.<br>▪ Mae gan ddysgwyr fwy o berchnogaeth o'u dysgu eu hunain. |

| GWEITHREDU | MONITRO a GWERTHUSO | CANLYNIADAU ALLWEDDOL 2006-08 |
|---|---|---|
| Hyrwyddo a datblygu sgiliau hanfodol disgyblion wrth iddynt symud drwy'r ysgol(ion) | ▪ Monitro darpariaeth HMS o ran datblygiad sgiliau hanfodol<br>▪ Monitro gwerthusiadau athrawon o gyrsiau HMS<br>▪ Adolygu SsOW – Cynghorwyr Cwricwlwm<br>▪ Cynllunio adolygiad – Cynghorwyr Cyswllt/Aseswyr y Marc Sgiliau Sylfaenol (BSQM)<br>▪ Archwiliadau BSQM<br>▪ Mapiau Darpariaeth Ysgolion | ▪ Athrawon yn gweithredu ystod o strategaethau addysgu a dysgu o ran datblygu sgiliau hanfodol / allweddol sy'n cael effaith amlwg ar ddysgu disgyblion<br>▪ Disgyblion yn defnyddio sgiliau y maent wedi'u hymarfer, mewn ystod o sefyllfaoedd. |
| Sicrhau bod pobl ifanc yn gwerthfawrogi dysgu ac yn deall y cyfraniad y gallant ei wneud mewn cymuned. | ▪ Cyfranogiad cymunedol a gwirfoddol pobl ifanc sy'n cael eu monitro gan y Rhwydwaith 14-19. | ▪ Pobl ifanc yn datblygu'r sgiliau sy'n angenrheidiol ar gyfer dysgu gydol oes<br>▪ Rhaglenni cymorth personol ac addysg iechyd, cymdeithasol a phersonol (PSHE) yn cael effaith ar barodrwydd pobl ifanc i gyfrannu at les addysgol a chymdeithasol y cymunedau y maent yn byw ynddynt. |
| Galluogi gweithgarwch adnabod yn gynnar a chynllunio rhaglenni ymyrryd i blant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol | ▪ Monitro cyfarfodydd data a diwrnodau hyfforddi gyda SENCOs a staff Uned i sicrhau bod disgyblion priodol yn cael eu targedu – Uned Ddata / Cynghorydd AAA<br>▪ Monitro cyfateb cymorth gydag angen disgybl yn effeithiol – Uned Ddata a Chynghorwyr Cwricwlwm<br>▪ Monitro presenoldeb staff mewn digwyddiadau hyfforddi sy'n ymwneud â rhaglenni ymyrryd – Cynghorwyr Cwricwlwm<br>▪ Archwilio darpariaeth Uned | ▪ Pob plentyn sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael cymorth cynnar a phriodol trwy gyfrwng gweithdrefnau ymyrryd a gynlluniwyd. |

| GWEITHREDU | MONITRO<br>a GWERTHUSO | CANLYNIADAU ALLWEDDOL<br>2006-08 |
|---|---|---|
| Sicrhau y ceir strategaethau cymorth ac ymyrryd effeithiol sy'n cyfateb ag anghenion pob dysgwr | ▪ Monitro ansawdd rhaglenni addysgu, dysgu a chymorth mewn ysgolion – Cynghorwyr Cyswllt a Chwricwlwm<br>▪ Monitro a gwerthuso cynnydd a chyrhaeddiad gwybyddol a sgiliau sylfaenol trwy gyfrwng graddfeydd-p, camau bach a gwybodaeth asesu safonol ar lefel disgybl unigol, dosbarth ac ysgol gyfan<br>▪ Monitro a gwerthuso SDPs ysgol a chynlluniau ymyrryd sgiliau sylfaenol wedi'u hariannu | ▪ Mae pob dysgwr yn ymwneud â rhaglenni addysgol sy'n delio â'u hanghenion a'u harddulliau dysgu. Mae cymorth ychwanegol ar gael ac yn cael ei weithredu yn ôl yr angen. |
| Cynorthwyo pob ysgol wrth iddynt gynnal ac adnewyddu'r Marc Ansawdd Sgiliau Sylfaenol (BSQM) a'r Marc Ansawdd Cynhwysiad (IQM). | ▪ Cynghorwyr Cwricwlwm / Cynghorwyr Cyswllt i fonitro cynnydd yn erbyn 10 elfen QM.<br>▪ Monitro cyfradd lwyddiant ysgolion wrth adennill QM<br>▪ Cynghorydd Cwricwlwm, (AAA) i fonitro'r nifer sy'n sicrhau IQM a chynnydd ysgolion unigol<br>▪ Cyfradd ddyfarnu IQM | ▪ Pob ysgol yn llwyddo i adennill BSQM<br>▪ Achredir ystod o ddyfarniadau allanol eraill i ysgolion e.e. Buddsoddwyr mewn Pobl (IIP)<br>▪ Rhaglen dreigl yn bodoli ar gyfer IQM |
| Datblygu sgiliau a gallu Cynorthwywyr Cymorth Dysgu wrth gynorthwyo datblygiad disgyblion mewn llythrennedd, rhifedd, y pynciau craidd a TGCh | ▪ Monitro darpariaeth hyfforddiant a lefelau mynychu staff<br>▪ Cynghorwyr Cwricwlwm a Chynghorwyr Cyswllt i arsylwi gwersi mewn ysgolion<br>▪ Cynghorydd cyswllt trwy gyfrwng ymweliadau cyswllt | ▪ Mae LSAs yn fwyfwy medrus ac yn fwy cymwys, ac yn gallu cynorthwyo dysgu disgyblion yn fwy effeithiol o fewn ystod o leoliadau ysgol |
| Cynnal a datblygu rhaglen hyfforddi gynhwysfawr i gynorthwyo dysgu Cymraeg fel ail iaith ar draws pob cyfnod. | ▪ Y Pwyllgor Llywio Penaethiaid i adolygu'r rhaglen HMS<br>▪ Y Cynghorydd Cymraeg i fonitro'r rhaglen HMS a lefelau mynychu ysgolion<br>▪ Monitro gwerthusiadau athrawon o'r ddarpariaethau hyfforddiant<br>▪ Gweithdrefnau sicrhau ansawdd SIS | ▪ Darparir rhaglenni hyfforddi effeithiol ar gyfer Cymraeg gan gynnwys ystod o HMS mewn canolfan ac yn yr ysgol.<br>▪ Mae'r Cynghorydd Cymraeg yn ymweld â phob ysgol bob blwyddyn i archwilio'r angen a'r gofynion datblygu<br>▪ Nifer cynyddol o ysgolion yn dangos dull gweithredu dwyieithog tuag at addysgu a dysgu |
| Darparu cyngor a chymorth er mwyn datblygu dwyieithrwydd ar draws y cwricwlwm ym mhob cyfnod | ▪ Monitro gwerthusiadau cwrs athrawon<br>▪ Y Cynghorydd Cymraeg a'r tîm Athrawon Bro i fonitro a gwerthuso ystod a dyfnder darpariaeth Cymraeg mewn ysgolion<br>▪ Monitro adroddiadau arolygu Estyn | |

| GWEITHREDU | MONITRO a GWERTHUSO | CANLYNIADAU ALLWEDDOL 2006-08 |
|---|---|---|
| Hwyluso cymorth cynghori allanol lle nad oes unrhyw gymorth o'r fath yn bodoli o fewn y strwythurau presennol i gynorthwyo ysgolion | ▪ Dadansoddiad anghenion blynyddol o ofynion hyfforddi<br>▪ Monitro lefelau mynychu HMS a gwerthusiadau athrawon<br>▪ Monitro darpariaeth HMS allanol o ran dadansoddiadau anghenion<br>▪ Gweithdrefnau sicrhau ansawdd SIS | ▪ Archwiliadau / dadansoddiadau anghenion hunanwerthuso ysgol yn nodi'r cymorth y mae ei angen<br>▪ Comisiynir cymorth allanol gan yr AALI<br>▪ Cymorth yn cael effaith ar safonau pwnc |
| Darparu arweiniad, cyngor a chymorth ar gyfer asesu a safoni | ▪ Cyfranogiad Cynghorwyr Cwricwlwm mewn cyfarfodydd safoni Cyfnod Allweddol 1 a 2 ar gyfer ysgolion clwstwr<br>▪ Cyfranogiad y Cynghorydd Cwricwlwm Uwchradd mewn cyfarfodydd safoni Cyfnod Allweddol 3 ar gyfer arweinwyr pwnc<br>▪ Cynghorwyr Cwricwlwm a Chyswllt i gynnal adolygiad o weithdrefnau asesu a safoni mewn ysgolion<br>▪ Cynghorwyr Cyswllt i fonitro SDPs / SIPs<br>▪ Monitro adroddiadau achredu, dilysu a safoni allanol Cyfnod Allweddol 3<br>▪ Cynghorwyr cyswllt trwy gyfrwng ymweliadau cyswllt<br>▪ Gweithdrefnau sicrhau ansawdd SIS | ▪ Mwy o ddibynadwyedd a chysondeb wrth asesu athrawon ym mhob Cyfnod Allweddol<br>▪ Cysondeb o ran barnau a defnyddio meini prawf asesu y Cwricwlwm Cenedlaethol wrth bontio cyfnodau<br>▪ Pob ysgol uwchradd yn sicrhau achrediad am weithdrefnau asesu yng Nghyfnod Allweddol 3 |
| Datblygu a gweithredu rhaglenni ymyrryd i wella llythrennedd, rhifedd a sgiliau meddwl disgyblion | ▪ Monitro ystod a dyfnder y rhaglenni a ddatblygir ac a gynigir gan SIS<br>▪ Cynghorwyr Cwricwlwm yn monitro trefniadau ymyrryd trwy gyfrwng arsylwadau dosbarth a thrafodaethau gyda staff<br>▪ Cyfarfodydd prosiect rheolaidd gyda staff i adolygu cynnydd strategaethau ymyrryd<br>▪ Dadansoddiad o ddata datblygu gwybyddol ac asesu safonol | ▪ Cynhelir ystod o raglenni ymyrryd yn effeithiol mewn ysgolion<br>▪ Mae arbenigedd a ddatblygir mewn ysgolion yn sicrhau bod rhaglenni yn gynaliadwy<br>▪ Sgiliau uwch mewn llythrennedd, rhifedd a sgiliau meddwl |

| GWEITHREDU | MONITRO a GWERTHUSO | CANLYNIADAU ALLWEDDOL |
| --- | --- | --- |
| Gweithio gyda budd-ddeiliaid allweddol i ymestyn a gwella llwybrau dysgu 14 – 19 | ▪ Rhwydwaith 14-19<br>▪ Grŏp Cynllun Cwricwlwm Strategol Ysgol<br>▪ Grwpiau o ddysgwyr wedi'u ffocysu | ▪ Mwy o ddewis a hyblygrwydd i bobl ifanc 14-19. |
| Parhau i wella a monitro lefelau mynychu, gan weithredu argymhellion grŏp Gorchwyl a Gorffen LICC:<br><br>▪ EWS i gytuno ar dargedau mynychu gydag ysgolion bob blwyddyn<br>▪ EWS i weithio gyda phob ysgol, fodd bynnag, gan dargedu'r ysgolion hynny y mae eu lefel fynychu yn is na 90% o ran ysgolion Uwchradd a 92% o ran ysgolion cynradd<br>▪ Cynorthwyo ysgolion i ddatblygu trefniadau rheoli electronig ar gyfer mynychu; Cynorthwyo ysgolion uwchradd i ddatblygu trefniadau monitro gwersi. | ▪ Adrodd chwarterol i'r pwyllgor Craffu<br><br>▪ EWOs yn adrodd am fentrau bob mis yn ystod cyfarfodydd tîm EWS; yn cael eu hystyried yn chwarterol gan y Tîm Rheoli Mynediad a Chynhwysiad a'u hadrodd i'r pwyllgor Craffu.<br>▪ Adroddiadau i Gyfarfodydd Rhannu Gwybodaeth SIS<br>▪ Monitro chwarterol gan HoS a'r tîm EMS / Data. Adrodd i LICC yn unol â'r cytundeb. | ▪ Cyflawnwyd y targedau a bennwyd gan ysgolion: Cynnydd mewn lefelau mynychu disgyblion<br>▪ Pob ysgol uwchradd i sicrhau lefel fynychu sydd dros 90%<br>▪ Pob ysgol gynradd i sicrhau lefel fynychu sydd dros 92%<br>▪ 100% o ysgolion yn adrodd am fynychu i LICC yn electronig<br>▪ Lefelau mynychu gwell mewn gwersi |

| GWEITHREDU | MONITRO a GWERTHUSO | CANLYNIADAU ALLWEDDOL |
|---|---|---|
| Swyddogion cyswllt rhwng yr ysgol a'r cartref a ariannir gan Cymorth yn gweithio gydag ysgolion cynradd a'u teuluoedd i sicrhau lefelau mynychu gwell a pherthnasoedd gwaith effeithiol rhwng y cartref a'r ysgol | ▪ Adroddiadau gwerthuso a monitro 6 mis i'r Swyddogion Monitro Prosiect o fewn y Bartneriaeth Fframwaith Plant a Phobl Ifanc ac yn cael eu hadrodd i LlCC. | |

Mae nod allweddol 2.5 yn gysylltiedig â'r canlynol:

(i) Cynlluniau Gwasanaeth:
Gwella Ysgolion
Mynediad a Chynhwysiad

(ii) Eraill:
Cynllun Cynorthwyo Ymddygiad;
Cynllun Cymorth
Ceisiadau BSA
Strategaeth AAA

**Strategaethau sy'n Cynorthwyo Blaenoriaethau 1 a 2**

# CODI SAFONAU A GWELLA PERFFORMIAD YSGOLION – STRATEGAETHAU CYNORTHWYOL

Hysbysir y dull gweithredu o weithio gydag ysgolion ym Mro Morgannwg gan y Cod Ymarfer ar gyfer y cyswllt rhwng AALl ac ysgol (Llywodraeth Cynulliad Cymru 1999).

Rydym wedi ymrwymo i weithio mewn partneriaeth gydag ysgolion ond ar yr un pryd, sicrhau y gallwn barhau i gyflawni ein rôl o gynorthwyo, monitro, herio ac ymyrryd pan fernir bod angen gwneud hynny.

Mae ysgolion yn unigryw o ran eu natur, felly mae gennym oll gymysgedd gwahanol o gryfderau a gwendidau. Felly, cydnabyddir y bydd lefelau ymyrryd i'w gweld ar hyd sbectrwm, o'r ysgolion hynny y mae angen "cyffyrddiad ysgafn" arnynt, i'r rhai y mae angen mesurau arbennig arnynt.

Defnyddir ystod o ffactorau i hysbysu'r Cyngor o lefel y cymorth a'r ymyrraeth sy'n angenrheidiol:

1. Data Ysgol – perfformiad, lefelau mynychu, gwaharddiadau
2. Hunanwerthusiad yr Ysgol
3. Ymweliadau'r Cynghorydd Cyswllt
4. Adolygiadau Marc Ansawdd
5. Meini prawf a ddefnyddir i nodi Ysgolion sy'n Peri Pryder (Dogfen Ysgogi yn cael ei hadolygu)

Felly, rydym yn gweld y broses o fonitro ysgolion fel proses o gasglu gwybodaeth sy'n hyrwyddo deialog ac sy'n helpu i ateb cwestiynau megis:

- Pa mor dda yr ydym yn gwneud?
- Pa gynnydd a sicrhawyd?
- A ydym wedi cyflawni'r hyn yr oeddem yn ceisio ei gyflawni?

Dylai'r broses:

- Gyd-fynd â phrosesau hunanwerthuso presennol yr ysgol
- Cydnabod a dathlu arfer da
- Nodi meysydd i'w datblygu, gan arwain at raglen gymorth y cytunwyd arni
- Sicrhau atebolrwydd dros wella gan ysgol unigol lle y ceir perfformiad gwael a/neu, lle y ceir pryderon.

Ysgol sy'n peri pryder yw'r flaenoriaeth gyntaf i bob tîm, gan adlewyrchu cymesuredd gwrthdro yn y Cod Ymarfer.

**Targedu Cymorth i Ysgolion**

Mae datblygiad setiau data ychwanegol a pharodrwydd ysgolion i rannu eu canlyniadau perfformio wedi galluogi ysgolion sy'n tangyflawni ac ysgolion sy'n sicrhau perfformiad uchel i gael eu nodi yn fwy effeithiol. Mae gwybodaeth gyd-destunol ychwanegol gan gynghorwyr cyswllt a chwricwlwm ysgol wedi gwneud cyfraniad sylweddol i'r broses dargedu. Mae'r Gwasanaeth Gwella Ysgolion bellach yn adnabod ei ysgolion yn dda. Yn arbennig, rydym bellach mewn sefyllfa dda i nodi ysgolion sy'n 'hwylio mynd', na fyddai eu canlyniadau asesu CC a'u canlyniadau mewn arholiadau wedi eu nodi fel ysgolion sy'n peri pryder yn syth.

Yn ystod Cyfnodau Allweddol 1 a 2, gosodwyd ysgolion mewn grwpiau meincnodu lleol sy'n cyfateb â grwpiau meincnodu cenedlaethol yn gyffredinol. Defnyddir perfformiad meincnodu ar gyfer yr holl ddangosyddion perfformio (PIs) dros y 4 blynedd ddiwethaf i ddangos tueddiadau o ran cyflawniad. Mae graffiau sy'n dangos perfformiad PI ysgol unigol yn erbyn canran y prydau ysgol am ddim yn helpu i ddangos perfformiad cymharol. Dangosir yr ysgolion hynny sy'n dangos y gwyriad mwyaf o'r linell duedd fel y rhai a allai ddangos y lefelau tangyflawni uchaf neu lefelau cyflawni uwch. Mae proses debyg yn digwydd wrth nodi tangyflawni a/neu arfer da mewn ysgolion uwchradd er na chaiff grwpiau meincnodu lleol eu llunio o ganlyniad i'r niferoedd bach yn y Fro.

Mae setiau data ychwanegol, yn enwedig y rhai sy'n ymwneud â dilyniant disgyblion a thrafodaeth gyda swyddogion AALl, yn parhau i gyfrannu at y broses dargedu. Yn arbennig, mae datblygiad mesurau dilyniant ar gyfer darllen a mathemateg (gan ddefnyddio gwybodaeth asesu safonol) wedi caniatáu cydnabod tangyflawniad ac arfer effeithiol mewn ysgolion na fyddai wedi cael ei nodi trwy gyfrwng asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol h.y. mewn ysgolion sy'n 'hwylio mynd' ac sy'n dangos cyrhaeddiad isel. Mae defnydd estynedig profion safonedig ym Mlwyddyn 7 yn parhau i herio ysgolion uwchradd i gyflawni'r un lefelau o ran cynnydd disgyblion a ddangosir mewn ysgolion cynradd. Dadansoddir canlyniadau disgyblion Blwyddyn 7 ar lefel unigol, ar lefel dosbarth ac ar lefel ysgol, felly maent yn cynnig cyfle i dargedu cymorth, gwella sgiliau llythrennedd a rhifedd disgyblion a chodi safonau yng Nghyfnod Allweddol 3 yn fanwl.

Yn ogystal, mae canlyniadau asesiadau graddfa-p a 'Chamau Bach' yn gwneud cyfraniad gwerthfawr i dargedu cymorth i ysgolion ym maes llythrennedd, rhifedd ac yn benodol, i ddelio â materion AAA.

Mae gwybodaeth gyd-destunol ychwanegol wedi gwneud cyfraniad pellach i'r broses dargedu ac mae'n cynnwys:

- Data mynychu a gwahardd
- Gwybodaeth AAA
- Symudedd disgyblion
- Adroddiadau a gyhoeddwyd gan Estyn yn ddiweddar

Ar ôl nodi ysgolion, bydd swyddogion gwella ysgolion yn trefnu rhaglenni cymorth penodol a manwl gyda phenaethiaid a staff unigol. Elfen bwysig o'r rhaglenni cymorth yw gofyniad y cytunwyd arno y bydd staff cynghori yn dychwelyd i'r ysgolion hynny a gynorthwywyd ar ôl egwyl priodol, er mwyn monitro cynnydd ac asesu pa mor effeithiol y mae athrawon / ysgolion wedi cynnwys y strategaethau hynny a hyrwyddwyd.

**Cymorth ar gyfer Gosod Targedau Ysgol**

Darparir ystod o ddata i ysgolion er mwyn cynorthwyo eu gweithdrefnau gosod targedau. Mae hyn yn cynnwys:

- Perfformiad meincnodu cenedlaethol a thueddiadau perfformio dros y 4 blynedd ddiwethaf
- Dadansoddiadau asesu safonol ar gyfer darllen / Saesneg, mathemateg a sgiliau nad ydynt yn sgiliau llafar (gan gynnwys amcangyfrifon disgybl diwedd Cyfnod Allweddol
- Amcangyfrifon ysgol / disgybl diwedd Cyfnod Allweddol Fischer Foundation Trust (FFT)

Mae cyfarfod y Cynghorydd Cyswllt gyda phenaethiaid / rheolwyr uwch ym mhob ysgol yn y Fro yn ystod tymor yr Hydref yn canolbwyntio ar gyrhaeddiad disgyblion a gosod targedau. Yn ogystal, ystyrir ystod o ddata cyd-destunol gan gynnwys nifer y disgyblion sydd ag anawsterau dysgu ychwanegol e.e. disgyblion AAA, LAC, disgyblion EAL a'r cymorth a ddarparir a'r strategaethau ymyrryd a weithredir ar gyfer y rhain.

Mae penaethiaid wedi cael hyfforddiant dehongli a dadansoddi data yn ystod y blynyddoedd a fu ond maent yn cael diweddariadau rheolaidd trwy gyfrwng cyfarfodydd yr awdurdod cyfan. Mae staff ysgol eraill wedi cael a byddant yn parhau i gael hyfforddiant data trwy gyfrwng HMS mewn canolfannau ac yn yr ysgol. Yn ogystal, mae'r Gwasanaeth Gwella Ysgolion wedi hwyluso a chefnogi cyfres o gyfarfodydd safoni ar gyfer pynciau craidd Cyfnod Allweddol 2 (ynghyd â chynrychiolwyr Cyfnod Allweddol 3) yng Nghyfnod Allweddol 3.

Darparir *proformas* priodol a thargedau ysgol gyfan a gyflwynir erbyn yr wythnos gyntaf ym mis Rhagfyr, i ysgolion. Mae'r Cynghorydd sy'n gyfrifol am ddata yn crynhoi'r cyflwyniadau gan lunio targedau AALl wedi'u seilio ar yr adroddiadau hyn a thrwy lunio cymariaethau gyda thueddiadau perfformio blaenorol.

Yn y gorffennol, mae amcangyfrifon ysgol a grynhowyd wedi bod lawer yn is na'r canlyniadau perfformio go iawn ar gyfer Cyfnod Allweddol 2. Yn ogystal, mae'r symudiad tuag at asesu athrawon wedi dylanwadu ar farnau athrawon yn ystod y cyfnod hwn. Mae'r Gwasanaeth Gwella Ysgolion wedi pwysleisio'r angen am amcangyfrifon mwy realistig yn gyson, yn

enwedig o ran diflaniad yr adborth ynghylch profion CC. Roedd cyflwyniadau ar gyfer 2006-08 yn cyfeirio at ddisgwyliadau lawer yn uwch ar gyfer mwyafrif yr ysgolion cynradd, gan adlewyrchu dull gweithredu mwy ystyriol tuag at y broses.

**Darparu Data i Ysgolion**

Mae ysgolion yn parhau i ddefnyddio ystod y profion a'r data cyfatebol, ond gyda'r diwygiadau canlynol:

- Mae mwyafrif helaeth o ysgolion iau a chynradd bellach yn defnyddio asesiadau safonol ar gyfer darllen, mathemateg a sgiliau nad ydynt yn sgiliau llafar ym Mlynyddoedd 3 i 6
- Mwy mwyafrif helaeth yr ysgolion babanod a chynradd bellach yn defnyddio asesiadau safonol ar gyfer darllen a mathemateg ym Mlynyddoedd 1 i 2
- Mae pob un ond un ysgol uwchradd yn defnyddio asesiadau safonol ar gyfer darllen, mathemateg a sgiliau nad ydynt yn sgiliau llafar ym Mlwyddyn 7.

Yn yr un modd â blynyddoedd blaenorol, diben yr asesiadau blynyddol yw olrhain cynnydd disgyblion yn y meysydd sgiliau pwysig hyn, nodi lle y mae angen cymorth ar ddisgyblion a darparu strategaethau ymyrryd priodol a hyfforddiant i staff ysgolion e.e. ar gyfer 2005/06, cyflwynwyd rhaglenni cymorth 'Dal i Fyny' i ddisgyblion Blwyddyn 7. Trefnwyd hyfforddiant i staff pob ysgol uwchradd. Mae canlyniadau'r rhaglen yn cael eu dadansoddi ar hyn o bryd.

Mae holl ddata asesu y Cwricwlwm Cenedlaethol a chanlyniadau Cyfnod Allweddol 4 ar gael i ysgolion o hyd ac yn cael eu rhannu rhwng ysgolion er mwyn nodi arfer da a lle y gellir targedu cymorth. Trosglwyddir data asesu y Cwricwlwm Cenedlaethol a data asesu safonol rhwng ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd sy'n derbyn disgyblion. Mae hyn yn hysbysu ysgolion uwchradd wrth iddynt drefnu grwpiau addysgu yn Mlwyddyn 7, gan helpu i nodi disgyblion penodol i gael cymorth. Yn ogystal, darparir ystod o ddata cyd-destunol cymharol i ysgolion gan gynnwys gwybodaeth ynghylch mynychu, gwahardd ac anghenion dysgu ychwanegol. Rhennir y wybodaeth hon gyda meysydd gwasanaeth eraill yn y gyfarwyddiaeth Dysgu a Datblygu hefyd a, phan fo hynny'n briodol, gyda'r pwyllgor craffu a'r cabinet.

Rydym wedi parhau i ddatblygu'r defnydd o adnoddau *B Squared* sy'n cynnwys asesiadau ar gyfer graddfeydd-p (dan Lefel 1 CC) a 'Chamau Bach' (cyflawniad cynyddol yn Lefel 1-5 CC). Aeth mwyafrif ysgolion y Fro (gan gynnwys ysgolion meithrin ac ysgolion arbennig) ati i ymgymryd ag ail rownd yr asesiadau yn ystod 2005-06. Mae hyn yn galluogi pennu cynnydd disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol er mwyn sicrhau bod ysgolion a chynghorwyr yn gallu targedu cymorth yn fwy effeithiol ar gyfer llythrennedd, rhifedd ac ar gyfer materion Anghenion Addysgol Arbennig penodol.

Ar hyn o bryd, mae'r Gwasanaeth Gwella Ysgolion yn datblygu proffiliau ysgol unigol a fydd yn cynnwys ystod gynhwysfawr o ddata perfformio a chyd-destunol. Bydd y rhain yn cyfrannu at ymweliadau a thrafodaethau Cynghorwyr Cyswllt (LAs) gydag ysgolion ac at weithdrefnau hunanwerthuso ysgolion.

Mae hyfforddiant mewn canolfannau ac yn y ysgol ynghylch deall a defnyddio data yn cael ei ddarparu o hyd i ystod o staff.

## PERFFORMIAD YSGOLION YM MRO MORGANNWG

Nodir y canlyniadau perfformio ar gyfer pob Cyfnod Allweddol rhwng 2000 a 2005 yn Nhabl 1.

## ADRODDIAD AR GYNNYDD 2004 – 2005

### Cyfnod Allweddol 2

Mae newidiadau yng nghyfran y disgyblion sy'n sicrhau Lefel 4 neu'n uwch yn y pynciau craidd ac ar gyfer y dangosydd pwnc craidd (CSI) fel a ganlyn (safle'r awdurdod unedol mewn cromfachau):

- Saesneg – gostyngiad o 86 i 83% (2)
- Cymraeg – cynnydd o 85 i 89% (3)
- Mathemateg – gostyngiad o 84 i 83% (2)
- Gwyddoniaeth – gostyngiad o 95 i 92% (1)
- Dangosydd Pwnc Craidd – gostyngiad o 80 i 79% (2)

Roedd y bwlch rhwng y ddau ryw ar gyfer perfformiad CSI yn 3.5% o'i gymharu â 4% ar gyfer 2003-04 ac 8.0% yng Nghymru. Roedd perfformiad meincnodu cenedlaethol yn dangos bod 63% o'r dangosyddion perfformio ar lefel ysgol yn uwch na'r canolrif – cynnydd o 1% o'i gymharu â 2003-04.

Disgwyliwyd gostyngiad mewn canlyniadau disgyblion a adroddwyd o ganlyniad i'r newid o brofion Cwricwlwm Cenedlaethol i asesu athrawon. Mae'r Gwasanaeth Gwella Ysgolion (SIS) wedi hwyluso cyfres o gyfarfodydd safoni a gynhaliwyd ar y cyd a chynrychiolwyr uwchradd er mwyn delio â dibynadwyedd a chysondeb asesu yng Nghyfnod Allweddol 2. Bydd angen cymorth parhaus ar athrawon ac ysgolion i'r perwyl hwn a byddant yn ei gael. Roedd y perfformiad cymharol o'i gymharu ag awdurdodau unedol eraill yn dda iawn gan sicrhau sefyllfa uwch o ran safle na'r hyn a fynegwyd gan gymhwystra i gael prydau ysgol am ddim. Ar lefel ysgol, roedd cyfran y dangosyddion perfformio a oedd yn uwch na'r canolrif lawer yn uwch na'r disgwyl wrth ddefnyddio prydau ysgol am ddim (FSM) fel dangosydd dirprwyol. Roedd y bwlch rhwng y ddau ryw yn llai na hanner yr hyn ydoedd ar gyfer Cymru gyfan.

### Cyfnod Allweddol 3

Mae newidiadau yng nghyfran y disgyblion sy'n sicrhau Lefel 5 neu'n uwch yn y pynciau craidd ac ar gyfer y dangosydd pwnc craidd (CSI) fel a ganlyn (safle'r awdurdod unedol mewn cromfachau):

- Saesneg – cynnydd o 70 i 73% (2)
- Mathemateg – cynnydd o 74 i 79% (1)
- Gwyddoniaeth – cynnydd o 78 i 80% (2)
- Dangosydd Pwnc Craidd – cynnydd o 62 i 64% (2)

Roedd y bwlch rhwng y ddau ryw ar gyfer perfformiad CSI yn 14.2% o'i gymharu â 12% ar gyfer 2003-04 a 10.7% yng Nghymru. Roedd perfformiad meincnodu cenedlaethol yn dangos bod, ar gyfer pynciau craidd, 66% o'r dangosyddion perfformio ar lefel ysgol yn uwch na'r canolrif – cynnydd o 22% o'i gymharu â 2003-04. Ar gyfer pynciau nad ydynt yn bynciau craidd, roedd 66% yn uwch na'r canolrif hefyd – cynnydd o 17%.

Roedd cynnydd sylweddol mewn canlyniadau disgyblion ar gyfer yr holl ddangosyddion perfformio ac adlewyrchir hyn mewn safleoedd awdurdod unedol lawer yn well o'i gymharu â 2003-04 ac, yn yr un modd ag ar gyfer Cyfnod Allweddol 2, roedd y rhain lawer yn well na'r hyn a ddangoswyd gan gymhwystra am brydau ysgol am ddim. Ar lefel ysgol, roedd y perfformiad mewn pynciau craidd a'r pynciau nad ydynt yn bynciau craidd, lawer yn uwch na'r disgwyl wrth ddefnyddio prydau ysgol am ddim (FSM) fel dangosydd dirprwyol, gyda mwyafrif y dangosyddion perfformio bellach yn uwch na'r canolrif. Roedd y bwlch rhwng y ddau ryw yn uwch nag yr oedd ar gyfer Cymru gyfan ac mae cymorth yn cael ei ddarparu i ysgolion er mwyn iddynt ddelio â'r mater hwn, sy'n ymddangos yn fater penodol i Gyfnod Allweddol 3 ar hyn o bryd.

**Cyfnod Allweddol 4**

Mae cyfran y disgyblion sy'n cyflawni'r dangosyddion perfformio penodedig a'r sgôr pwyntiau cyfartalog fel a ganlyn (safle'r awdurdod unedol mewn cromfachau):

- Saesneg – dim newid o 62% (3)
- Mathemateg – cynnydd o 3 i 63% (1)
- Gwyddoniaeth – gostyngiad o 5 i 51% (9)
- Dangosydd Pwnc Craidd – dim newid o 45% (2)
- 5+ gradd A*-C – gostyngiad o 1 i 62% (1)
- 5+ gradd A*-G – gostyngiad o 1 i 90% (2)
- Sgôr pwyntiau cyfartalog – gostyngiad o 2 i 46 (2)

Roedd y bwlch rhwng y ddau ryw ar gyfer perfformiad CSI yn 2% o'i gymharu â 4% ar gyfer 2003-04 a 6.8% yng Nghymru. Roedd perfformiad meincnodu cenedlaethol yn dangos bod 47% o'r dangosyddion perfformio ar lefel ysgol yn uwch na'r canolrif – gostyngiad o 5% o'i gymharu â 2003-04.

Cyfnod Allweddol 4 oedd y cyfnod y gwelwyd y perfformiad gwannaf ynddo ar gyfer 2004-05. Ac eithrio mathemateg, roedd perfformiad 2005 yn is nag amcangyfrifon a oedd yn deillio o'r ysgol ac yn siomedig ar y cyfan. Mae'r canlyniadau mewn gwyddoniaeth yn peri pryder arbennig, gyda 4 o'r 8 ysgol uwchradd yn y Fro yn y chwartel is ar gyfer perfformiad meincnodu cenedlaethol a dim ond 2 yn sicrhau safle uwch na'r canolrif. Mae'n anochel bod canlyniadau gwyddoniaeth yn cael effaith ar CSI a pherfformiad sgôr pwyntiau er bod cymariaethau safle gydag awdurdodau unedol eraill wedi parhau i fod yn gystadleuol. Cyfrannwyd at y canlyniadau gwyddoniaeth gwan gan nifer o ffactorau gan gynnwys:

- Perfformiad lawer yn wannach mewn gwyddoniaeth nag mewn pynciau craidd eraill mewn rhai ysgolion
- Canlyniadau gwannach mewn asesu gwaith cwrs i ddisgyblion mewn rhai ysgolion
- Diffyg ymgysylltu â disgyblion lle'r oedd ystod gyfyngedig o ddewisiadau gwyddoniaeth ar gael

Mae'r materion uchod yn cael eu trafod a'u trin gydag arweinwyr pwnc a rheolwyr uwch mewn ysgolion ar hyn o bryd.

**Cymorth i ysgolion wella cyfraddau mynychu disgyblion**

Mae'r Gwasanaeth Lles Addysg wedi cael ei ddatblygu trwy gyfrwng cronfa Cymorth a neilltuwyd gan y Bartneriaeth Fframwaith Plant a Phobl Ifanc. Cydnabu'r Bartneriaeth bod lefelau mynychu disgyblion yn flaenoriaeth allweddol, yn enwedig lefelau mynychu mewn ysgolion cynradd yn y Barri a Phenarth. Gwnaethpwyd ceisiadau aflwyddiannus i gyflogi swyddogion cyswllt rhwng yr ysgol a'r cartref, wedi'u lleoli yn y Gwasanaeth Cynorthwyo Disgyblion canolog ac yn gweithio yn ardaloedd y Barri a Phenarth, y mae eu rôl yn cynnwys gweithio gydag ysgolion, teuluoedd a disgyblion y nodwyd bod eu lefelau mynychu yn wael neu'n isel.

Mae'r lefelau mynychu ar lefel gynradd wedi gwella o 92.83% yn 2000/01 i 94.4% yn 2004/05.
Targedir ysgolion y mae eu lefel fynychu yn is na 90% ar gyfer trefniadau ymyrryd penodol, gyda swyddogion cyswllt rhwng yr ysgol a'r cartref yn gweithio gyda'r ysgolion i ddatblygu prosiectau a strategaethau i ddelio â lefelau mynychu gwael. Mae pob ysgol gynradd yn gweithredu polisi cyswllt diwrnod cyntaf ac yn cael caledwedd a meddalwedd i reoli mynychu yn electronig.

Ar lefel uwchradd, mae gan bob ysgol swyddog lles addysg penodol yn yr ysgol. Er eu bod yn parhau i fod yn rhan o'r Gwasanaeth Cynorthwyo Disgyblion canolog, a reolir gan Swyddog Lles Addysg Uwch, cânt eu defnyddio mewn gwahanol

ffyrdd, ar ôl cytuno ar hyn gyda phob ysgol. Mae pob ysgol uwchradd yn rheoli ac yn adrodd cyfraddau mynychu yn electronig eisoes, fodd bynnag, defnyddir y grant a gafwyd gan LICC yn ddiweddar i ddatblygi trefniadau monitro gwersi ym mhob ysgol. Mae ysgolion uwchradd yn gweithredu trefniadau cyswllt diwrnod cyntaf gan adrodd gwybodaeth fynychu i'r SEWO bob mis, i gynorthwyo gwaith monitro a sicrhau y targedir adnoddau i ddisgyblion y mae angen rhoi blaenoriaeth iddynt, mewn ffordd effeithiol. Mae'r lefel fynychu mewn ysgolion uwchradd yn cynyddu'n raddol o flwyddyn i flwyddyn. Yn 2000/01, roedd y lefel fynychu yn 90.27% a phennwyd targed o 92% ar gyfer 2005/06. Y lefel fynychu mewn gwirionedd ar gyfer 2004/05 oedd 91.7%.

Mae'r Awdurdod wedi paratoi llyfryn o'r enw 'Attendance Matters', a ddosbarthwyd i bob disgybl a'u rhieni, sy'n hyrwyddo mynychu rheolaidd gan bob disgybl a'r cyfraniad y mae hyn yn ei wneud i wella disgyblion ac ysgolion. Mae hefyd yn ceisio annog rhieni i beidio tynnu eu disgyblion allan o'r ysgol i fynd ar wyliau.
Datblygir targedau ysgol unigol rhwng pob EWO a'r ysgol.

## TABL 1

## BRO MORGANNWG – PERFFORMIAD CYFNOD ALLWEDDOL (2000-05)

### % Perfformiad Cyfnod Allweddol 1 Lefel 2+ AALl (Cymru)

| | 2000 | 2001 | 2002 | 2003 | 2004 | 2005 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Saesneg | 91 (82) | 90 (83) | 89 (83) | 87 (82) | 88 (83) | 90 (84) |
| Cymraeg | 89 (87) | 93 (86) | 91 (87) | 89 (87) | 94 (88) | 89 (89) |
| Mathemateg | 94 (88) | 93 (89) | 93 (88) | 90 (87) | 91 (87) | 92 (87) |
| Gwyddoniaeth | 93 (87) | 93 (88) | 94 (88) | 90 (88) | 93 (89) | 94 (89) |
| CSI | 88 (80) | 87 (81) | 87 (80) | 85 (79) | 87 (80) | 88 (81) |

### % Perfformiad Cyfnod Allweddol 2 Lefel 4+ (Cymru)

| | 2000 | 2001 | 2002 | 2003 | 2004 | *TA 2005 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Saesneg | 78 (74) | 78 (77) | 87 (80) | 84 (79) | 86 (79) | 83 (79) |
| Cymraeg | 71 (68) | 75 (71) | 86 (75) | 88 (78) | 85 (79) | 89 (76) |
| Mathemateg | 73 (69) | 76 (74) | 79 (73) | 81 (75) | 84 (78) | 83 (79) |
| Gwyddoniaeth | 85 (81) | 83 (82) | 92 (86) | 92 (88) | 95 (89) | 92 (86) |
| CSI | 67 (63) | 69 (68) | 76 (68) | 77 (71) | 80 (72) | 79 (73) |

### % Perfformiad Cyfnod Allweddol 3 Lefel 5+ AALl (Cymru)

| | 2000 | 2001 | 2002 | 2003 | 2004 | 2005 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Saesneg | 66 (59) | 69 (62) | 71 (61) | 71 (63) | 70 (65) | 73 (67) |
| Cymraeg | | | | | | |
| Mathemateg | 67 (61) | 67 (62) | 69 (62) | 73 (68) | 74 (71) | 79 (71) |
| Gwyddoniaeth | 67 (58) | 72 (63) | 76 (67) | 76 (69) | 78 (74) | 80 (71) |
| CSI | 55 (46) | 57 (50) | 60 (50) | 63 (54) | 62 (57) | 64 (57) |

**% Perfformiad Cyfnod Allweddol 4 AALI (Cymru)**

| | 2000 | 2001 | 2002 | 2003 | 2004 | 2005 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Saes (C+) | 62 (54) | 62 (54) | 61 (55) | 63 (56) | 62 (55) | 62 (55) |
| Cymraeg | | | | | | |
| Ma (C+) | 49 (47) | 52 (44) | 52 (45) | 52 (45) | 53 (46) | 56 (48) |
| Gwydd (C+) | 57 (48) | 57 (47) | 55 (48) | 54 (48) | 56 (48) | 51 (48) |
| CSI | 43 (36) | 46 (37) | 43 (37) | 44 (38) | 45 (38) | 45 (38) |
| 5+A*-C | 58 (49) | 59 (50) | 60 (50) | 62 (51) | 63 (51) | 62 (52) |
| 5+A*-G | 90 (85) | 88 (85) | 90 (85) | 90 (85) | 91 (85) | 90 (85) |
| Pwyntiau Cyfartalog | 42 (38) | 43 (38) | 45 (39) | 46 (39) | 48 (40) | 46 (40) |

**MYNYCHU**

| | Targed | Perfformiad go iawn 2004/05 | TARGEDAU SESP | | TARGEDAU'R CYNLLUN ADDYSG SENGL | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | 2004 / 05 | 2005 / 06 | 2006 / 07 | 2007 / 08 |
| Mynychu | CYNRADD | 94.08 | HEB FOD YN OFYNNOL | HEB FOD YN OFYNNOL | 94.15 | 94.15 |
| | UWCHRADD | 91.06 % | 92 % | 92 % | 92 % | 92.1 % |
| Gwaharddiadau | UWCHRADD FESUL 100 DISGYBL | 1.63 | 1.12 | 0.6 | 0.75 | 0.7 |
| CYFNOD PENODOL | % Y DIWRNODAU A GOLLWYD Cynradd Uwchradd | 0.035 | 0.032 | 0.036 | 0.030 | 0.030 |
| | HYD Y GWAHARDDIAD AR GYFARTALEDD - CYNRADD | Colli 443 diwrnod 96 digwyddiad 4.61 diwrnod | HEB FOD YN OFYNNOL | HEB FOD YN OFYNNOL | 4.60 | 4.59 |
| | HYD Y GWAHARDDIAD AR GYFARTALEDD – UWCHRADD | Colli 1017 diwrnod 381 digwyddiad 2.66 diwrnod | HEB FOD YN OFYNNOL | HEB FOD YN OFYNNOL | 2.63 | 2.60 |
| | | | | | | |

# LLYTHRENNEDD

| STRATEGAETH | HYRWYDDWYD TRWY | MONITRO a GWERTHUSO |
|---|---|---|
| Datblygu sgiliau llythrennedd plant a phobl ifanc er mwyn iddynt allu cyfranogi a chyfrannu'n effeithiol at gymdeithas sy'n mynd yn fwyfwy llythrennog.  Bydd hyn yn caniatáu mwy o gyfleoedd cyflogaeth, gwell siawns mewn bywyd, gan gyfrannu at ddatblygiad cymdeithasol cymunedau yn ardal yr Awdurdod. | ▪ Hyrwyddo llythrennedd dan oed ysgol trwy e.e. Iaith a Chwarae a Cychwyn Cadarn<br>▪ Cynnal a datblygu safonau mewn Saesneg / llythrennedd ym mhob ysgol trwy hyrwyddo strategaethau addysgu a dysgu effeithiol<br>▪ Cynorthwyo a chynnal Marc Ansawdd yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol ym mhob ysgol<br>▪ Pennu continwwm addysgu a dysgu effeithiol ym mhob adeg yn ystod y cyfnod pontio<br>▪ Hyrwyddo a chyflwyno ystod o strategaethau ymyrryd mewn ysgolion gan ddefnyddio ffynonellau ariannu gan yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol a DELLS e.e.  Dal i Fyny<br>▪ Annog cyfranogiad teuluoedd mewn dysgu llythrennedd e.e.  rhaglenni Dysgu Teuluol.<br>▪ Cynorthwyo llythrennedd yn y gymuned ehangach ar gyfer grwpiau a dargedwyd e.e. grwpiau lleiafrifol o oedolion a phlant<br>▪ Gweithio mewn partneriaeth gydag ystod o asiantaethau i sicrhau dull gweithredu mwy cydlynol tuag at ddatblygiad llythrennedd e.e. Y Gwasanaeth Llyfrgell a'r Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol<br>▪ Defnyddio ystod o strategaethau i hyrwyddo dwyieithrwydd gan weithio gydag asiantaethau eraill e.e.  yr Urdd a Bwrdd yr Iaith Gymraeg | ▪ Asesu cynnydd trwy ddadansoddi ystod o asesiadau priodol e.e. asesiadau sylfaenol, darllen NFER ac asesiadau llafaredd CC<br>▪ Casglu data perthnasol e.e. arsylwadau athrawon, holiaduron disgyblion, athrawon a rhieni<br>▪ Monitro gan asiantaethau allanol -<br>▪ Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol a<br>▪ Phrifysgol Caerdydd<br>▪ Ymweliadau ysgol gan Gynghorwyr Cyswllt (CA) a Chwricwlwm ac adroddiadau cysylltiedig<br>▪ Adroddiadau arolygu Estyn<br>▪ Gwasanaeth Cyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig (EMAS), Canolfan Dysgu Agored |

# RHIFEDD

| STRATEGAETH | HYRWYDDWYD TRWY | MONITRO a GWERTHUSO |
|---|---|---|
| Datblygu sgiliau rhifedd pob plentyn ac unigolyn ifanc, gan sicrhau eu bod yn rhifog yn weithredol a'u galluogi i gyfrannu a gweithredu'n effeithiol o fewn galwadau cymdeithas fodern sy'n newid a chan gynnwys:<br>- Bod yn llythrennog yn ariannol<br>- Meddu ar y sgiliau sy'n angenrheidiol ar gyfer cyflogaeth<br>- Caniatáu i rywun fanteisio ar lwybrau dysgu a ddewiswyd | ▪ Hyrwyddo rhifedd dan oed ysgol trwy e.e. Rhif a Chwarae a Cychwyn Cadarn<br>▪ Cynnal a datblygu safonau rhifedd ac ansawdd addysgu rhifedd ym mhob ysgol<br>▪ Cynorthwyo a chynnal Marc Ansawdd yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol ym mhob ysgol.<br>▪ Sefydlu continwwm addysgu a dysgu effeithiol ar bob adeg yn ystod y cyfnod pontio<br>▪ Hyrwyddo a chyflwyno ystod o strategaethau ymyrryd mewn ysgolion gan ddefnyddio ffynonellau ariannu gan yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol a DELLS e.e. 'Maths Recovery'.<br>▪ Darparu cymorth er mwyn datblygu strategaethau addysgu a dysgu effeithiol trwy gyfrwng rhaglen hyfforddi i'r holl staff.<br>▪ Datblygu rhifedd yn y gymuned ehangach trwy weithio mewn partneriaeth gyda gwasanaethau llyfrgell, Dow Corning, Cwmni Gyrfaoedd Cymru a'r grŵp aml-asiantaeth Sgiliau Sylfaenol. | ▪ Asesu cynnydd trwy ddadansoddi ystod o asesiadau priodol e.e. asesiadau sylfaenol, Cynnydd mewn Mathemateg NFER<br>▪ Gwerthuso ystod o dystiolaeth / data e.e. arsylwadau gwersi, holiaduron disgyblion, athrawon a rhieni, gwerthusiadau athrawon, adroddiadau AALl, gwaith disgyblion.<br>▪ Monitro gan asiantaethau allanol – Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol Dow Corning, Cwmni Gyrfaoedd Cymru<br>▪ Ymweliadau ysgol gan Gynghorwyr Cyswllt a Chwricwlwm ac adroddiadau cysylltiedig<br>▪ Adroddiadau arolygu Estyn |

# TGCh

| STRATEGAETH | HYRWYDDWYD TRWY | MONITRO a GWERTHUSO |
|---|---|---|
| Grymuso pob plentyn ac unigolyn ifanc gyda'r sgiliau priodol i'w galluogi i fanteisio ar dechnolegau a'u defnyddio er mwyn gwella eu sgiliau bywyd. Datblygu cymuned sy'n llythrennog o ran TGCh ac sy'n meddu ar lefel uchel o sgiliau cyfathrebu sy'n gymesur â galwadau'r byd modern a gofynion y gweithlu yn y dyfodol. | ▪ Cynorthwyo pob ysgol i gynnwys TGCh fel medr ar gyfer bywyd.<br>▪ Gwella sgiliau athrawon a staff cymorth i ddatblygu amgylchedd sy'n gyfoethog o ran TGCh.<br>▪ Annog a hyrwyddo gweithgareddau allgyrsiol i ddatblygu TGCh fel medr ar gyfer bywyd.<br>▪ Lledaenu arfer da trwy gyfrwng:-<br>- ymweliadau ag ysgolion<br>- porth SIS<br>- fideo-gynadledda<br>- rhaglen hyfforddi HMS<br>- adroddiadau arolygu ESTYN<br>▪ Annog a chynorthwyo ysgolion i weithio tuag at gyflawni'r Marc TG (BECTa/NCSL)<br>▪ Cyfrannu at Lwybrau 14-19 – trwy alluogi pobl ifanc i fanteisio ar gyrsiau addas sy'n briodol i'w hanghenion.<br>▪ Datblygu porth er mwyn sicrhau bod pob plentyn ac unigolyn ifanc yn gallu manteisio ar gyrsiau / deunyddiau ar-lein – ar unrhyw adeg, mewn unrhyw fan trwy gyfrwng amgylcheddau dysgu rhith (VLEs). | ▪ Ymweliadau ysgol a thrafodaethau gyda phersonél rheoli uwch, disgyblion, athrawon a rhieni.<br>▪ Monitro cynlluniau cwricwlwm ysgol ar gyfer cyflwyno TGCh<br>▪ Arsylwadau cyflwyno TGCh mewn ysgolion o fewn gwersi penodol ac mewn cymwysiadau traws-cwricwlwm<br>▪ Ymweliadau ysgol gan Gynghorwyr Cyswllt a Chwricwlwm ac adroddiadau cysylltiedig<br>▪ Adroddiadau arolygu Estyn<br>▪ Monitro'r nifer sy'n dilyn cyrsiau 14-19 sy'n ymwneud â TGCh<br>▪ Monitro lefelau manteisio ar a defnyddi'r porth TGCh |

# BLYNYDDOEDD CYNNAR

| STRATEGAETH | HYRWYDDWYD TRWY | MONITRO a GWERTHUSO |
|---|---|---|
| Cynorthwyo, herio a chryfhau'r safonau a'r ddarpariaeth addysgol i blant 3-7 oed trwy sicrhau bod gan blant gyfleoedd i'w galluogi i symud ymlaen ar hyn continwwm dysgu unigol. | ▪ Cynnal arweiniad a chymorth yn unol â mentrau'r Cyngor a deddfwriaeth genedlaethol.<br>▪ Cynnal partneriaethau ystyrlon gydag asiantaethau amlddisgyblaeth.<br>▪ Parhau i gynorthwyo ysgolion a lleoliadau nas cynhelir ac a ariannir wrth baratoi ar gyfer y Cyfnod Sylfaen a'i weithredu.<br>▪ Llunio ffurf cynllunio cyffredin i ddelio ag a chynorthwyo'r Cyfnod Sylfaen a fydd yn cael ei sefydlu a sicrhau ei fod ar gael<br>▪ Cychwyn rhaglen i gynorthwyo asesu unigol effeithiol trwy arsylwi oedolion ar gyfer plant 3-7 oed wrth iddynt symud ar draws y continwwm. | ▪ Pennaeth gwasanaeth a Chynghorydd Cynradd Uwch<br>▪ Partneriaeth Blant<br>▪ Tîm y Cyfnod Sylfaen<br>- Cynghorwyr Cyswllt<br>- Cynghorwyr Cwricwlwm<br>- Partneriaeth Blant<br>- Trwy gyfrwng ymweliadau a gwerthusiadau gan ddigwyddiadau hyfforddi mewn canolfannau.<br>▪ Cynghorydd Cynradd Uwch (SPA)<br>- Tîm y Cyfnod Sylfaen<br>Trwy gyfrwng ymweliadau a gwerthusiadau gan ddigwyddiadau hyfforddi mewn canolfannau.<br>▪ Cynghorydd Cynradd Uwch<br>- Tîm y Cyfnod Sylfaen<br>- Trwy gyfrwng ymweliadau a gwerthusiadau gan ddigwyddiadau hyfforddi mewn canolfannau. |

# BLYNYDDOEDD CYNNAR parhad

| STRATEGAETH | HYRWYDDWYD TRWY | MONITRO<br>a GWERTHUSO |
|---|---|---|
| | ▪ Sefydlu strategaethau i ddiogelu pontio effeithiol trwy gyfrwng dilyniant mewn addysgeg.<br><br>▪ Parhau i godi ymwybyddiaeth o werth datblygiad holistig plant trwy gyfrwng cyfle cyfartal ym mhob agwedd ar ddysgu.<br><br>▪ Darparu hyfforddiant, cymorth a her i alluogi ysgolion a<br>▪ lleoliadau i gynnal a gwella darpariaeth a safonau ymhellach.<br><br>▪ Parhau i godi ymwybyddiaeth o werth ymestyn dysgu plant y tu hwnt i'r dosbarth. | ▪ Cynghorydd Cynradd Uwch<br>- Tîm y Cyfnod Sylfaen<br>- Cynghorwyr Cwricwlwm<br>- I fonitro rhaglenni cymorth ar gyfer pontio<br><br>▪ Cynghorydd Cynradd Uwch<br>Tîm y Cyfnod Sylfaen<br>Trwy gyfrwng ymweliadau a gwerthusiadau gan ddigwyddiadau hyfforddi mewn canolfannau.<br>- Deialog broffesiynol gyda Phenaethiaid ac Arweinwyr Chwarae.<br>- Ffurflenni gwerthuso<br><br>▪ Cynghorydd Cynradd Uwch<br>- Tîm y Cyfnod Sylfaen<br>- Trwy gyfrwng ymweliadau a gwerthusiadau gan ddigwyddiadau hyfforddi mewn canolfannau. |

# BLYNYDDOEDD CYNNAR parhad

| STRATEGAETH | HYRWYDDWYD TRWY | MONITRO<br>a GWERTHUSO |
|---|---|---|
| | ▪ Pennu strategaethau i rannu arfer da profedig er mwyn cyfrannu tuag at welliant parhaus mewn darpariaeth a safonau.<br><br>▪ Cryfhau'r bartneriaeth a'r cymorth i'r safonau a'r ddarpariaeth addysgol yng Nghanolfan Blant Integredig Gorllewin y Fro.<br><br>▪ Gweithio mewn partneriaeth i sicrhau bod rhieni a gofalwyr yn cael gwybod am fentrau lleol a chenedlaethol yn llawn. | ▪ Cynghorydd Cynradd Uwch<br>▪ Tîm y Cyfnod Sylfaen / Cynghorwyr Cwricwlwm<br>- i fonitro arfer yn y dosbarth.<br><br>▪ Tîm y Cyfnod Sylfaen<br>- Cyfarfodydd Traws-Asiantaeth<br>- Partneriaeth Blant Cyfarwyddwr Dysgu a Datblygu<br><br>▪ Deialog broffesiynol gyda Phenaethiaid ac Arweinwyr Chwarae.<br>- Ffurflenni gwerthuso |

# YMDDYGIAD DISGYBLION

| STRATEGAETH | HYRWYDDWYD TRWY | MONITRO a GWERTHUSO |
|---|---|---|
| Cynlluniwyd y strategaeth i wella ymddygiad disgyblion a gostwng nifer y gwaharddiadau i:<br>• Gynorthwyo ysgolion i reoli ymddygiad mewn ffordd gadarnhaol er mwyn sicrhau bod disgyblion sydd ag anawsterau emosiynol a/neu ymddygiadol, neu ymddygiad sy'n heriol, yn cael cymorth ac yn cael eu rheoli yn briodol i sicrhau cynnydd cymdeithasol ac addysgol trwy eu cynnwys yn yr amgylchedd dysgu<br>• Sicrhau nad yw ymddygiad gwael rhai disgyblion yn atal cynnydd addysgol yr holl ddisgyblion eraill yn y dosbarth. | ▪ Parhau i fonitro a gweithredu'r Cynllun Cymorth Ymddygiad<br>▪ Darparu cyngor a chymorth arbenigol i ysgolion i hyrwyddo trefniadau rheoli ymddygiad cadarnhaol a strategaethau gwrth-fwlio trwy gyfrwng rhaglen Hms, wedi'i seilio ar archwiliad o'r angen a nodwyd mewn ysgolion<br>▪ PSS (PBIT) i gynnig hyfforddiant rhianta 'Coping with Kids' i staff ysgolion a grwpiau o rieni, er mwyn darparu'r deunyddiau a'r arbenigedd angenrheidiol i staff ysgolion i'w galluogi i barhau'r rhaglenni gyda rhieni disgyblion yn eu hysgol.<br>▪ Cynorthwyo disgyblion a nodwyd a datblygu strategaethau gydag ysgolion cynradd trwy gyfrwng y Tîm Gwella Ymddygiad Cynradd (PBIT) i gynnal eu lle yn yr ysgol.<br>▪ Darparu lleoliad yn uned ymddygiad y Stryd Fawr am y tymor byr<br>▪ Rhoi arian ychwanegol i 3 ysgol uwchradd er mwyn gwella ymddygiad disgyblion<br>▪ Nodi disgyblion blwyddyn 6 sy'n agored i niwed, darparu cymorth gan fentoriaid trwy gyfrwng y prosiect pontio Cynradd/uwchradd a ariannir gan Cymorth, gweithio gyda theuluoedd, i gynorthwyo eu trosglwyddiad i flwyddyn 7<br>▪ PBIT i weithio gyda disgyblion cynradd a waharddwyd am gyfnod penodol > 5 diwrnod<br>▪ Gwasanaeth Cynorthwyo Disgyblion (PPS) i dargedu ysgolion sydd â lefelau uchel o ran gwaharddiadau am gyfnod penodol<br>▪ PSS i weithio gydag ysgolion i atal | ▪ Gwaith monitro ac adolygu tymhorol o'r cynllun gan HoS, EP uwch ac arweinydd tîm PBIT.<br>▪ Disgyblion a waharddwyd a disgyblion anodd eu lleoli yn cael eu monitro gan banel bob wythnos.<br>▪ Adolygiad gan PBIT o drefniadau ymyrryd bob wythnos, er mwyn targedu adnoddau mewn ffordd briodol.<br>▪ Adolygiad 6 mis o brosiect Cymorth gan swyddog prosiect.<br>▪ Data ynghylch gwaharddiadau – cyfnod penodol a pharhaol a threfniadau ymyrryd dilynol ar gyfer ymddygiad yn cael ei fonitro yn ystod cyfarfod cyswllt tymhorol rhwng SIS a PSS.<br>▪ Cyflawniad a chyfradd fynychu disgyblion EOTAS yn cael eu monitro yn dymhorol trwy EWS. |

| | | |
|---|---|---|
| | gwaharddiadau parhaol:<br>o Lleoli mewn PRU Cyfnod Allweddol 3 pan fo hynny'n briodol | |

# YMDDYGIAD DISGYBLION parhad

| STRATEGAETH | HYRWYDDWYD TRWY | MONITRO a GWERTHUSO |
|---|---|---|
| | ○ Cyfeiriad yng Nghyfnod Allweddol 4 ar gyfer lleoliad galwedigaethol Mynediad Ieuenctid gyda darparwyr hyfforddiant unigol neu Amelia Trust Farm neu ddarpariaeth Gwasanaeth Ieuenctid<br>▪ PSS i weithio gydag ysgolion i drefnu addysg briodol i ddisgyblion a waharddwyd ar ddiwrnod 16 y gwaharddiad, lleoli yn PRU, Amelia Trust Farm, y Gwasanaeth Ieuenctid a Darparwyr Dysgu eraill, hyfforddiant y tu allan i'r ysgol, gan weithio tuag at bob plentyn a waharddwyd yn cael gwerth 25 awr o ddarpariaeth addysg.<br>▪ Ffurfio panel i fonitro cynnydd disgyblion a addysgwyd mewn mannau ac eithrio ysgolion | |

```
ERROR: syntaxerror
OFFENDING COMMAND: %ztokenexec_continue

STACK:

-filestream-
```